Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 1 RHAGFYR 2020 am 2.00 y. p. | TUESDAY, 1 DECEMBER, 2020 at 2:00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL | VIRTUAL MEETING |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

R. Llewelyn Jones, Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans,
Jonathan Mendoza *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Hydref, 2020.

3 **CYNGOR SIR YNYS MÔN - YMATEB AC ADFER YN SGÎL COVID 19 - SICRWYDD DROS DRO** (Tudalennau 5 - 8)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

4 **DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH A BLAENORIAETHAU ARCHWILIO MEWNOL 2020/21** (Tudalennau 9 - 16)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

5 **ADRODDIAD GWERTHUSO DIOGELU DATA YN YSGOLION YNYS MÔN - YMWELIAD GWERTHUSIAD CYNTAF I YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD YNYS MÔN GAN Y SWYDDOG DIOGELU DATA YSGOLION GORFFENNAF 2020** (Tudalennau 17 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

6 **ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2020/21** (Tudalennau 73 - 92)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **LLYTHYR ARCHWILIO : CRONFEYDD CYFUN RHANBARTHOL MEWN PERTHYNAS Â LLEOEDD I BOBL HYN MEWN CARTREFI GOFAL** (Tudalennau 93 - 94)

Cyflwyno adroddiad gan Archwilio Allanol.

8 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 95 - 98)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

9 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 99 - 100)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol –

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**10** **ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELWCH SEIBR 2019/20** (Tudalennau 101 - 112)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**11** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 113 - 114)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol –

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**12** **DIWEDDARIAD AR Y GOFRESTR RISG** (Tudalennau 115 - 154)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

**Cofnodion y cyfarfod arbennig rhithwir a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2020**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter S Rogers (Cadeirydd)<br>Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, G O Jones, R Ll Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M Roberts.<br><br>Aelod Lleyg – Mr Dilwyn Evans. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP),<br>Prif Archwiliwr (NW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid),<br>Mr Ian Howse (Partner Ymgysylltu – Deloitte),<br>Ms Bethan Roberts (Archwilio Cymru),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO),<br>Rheolwr Cyllid (CK),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

---

DRAFT

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd fel rhai cywir, cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi 2020.

## 3 DATGANIAD O'R CYFRIFON 2019/20 AC ADRODDIAD ISA 260

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn amlygu'r prif faterion yn codi ers cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon drafft i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 1 Medi 2020. Nodir y prif ddiwygiadau i'r cyfrifon drafft yn Adroddiad yr Archwiliwr (Atodiad 3 yn yr adroddiad). Proseswyd yr holl ddiwygiadau y cytunwyd bod angen eu hailddatgan gan Deloitte ac maent wedi eu cynnwys yn y Datganiad o'r Cyfrifon. Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf ac yna ym mis Medi ac na wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i'r Datganiad o'r Cyfrifon.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau fel a ganlyn:-

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch Nodyn 34 – Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion yn y Datganiad o'r Cyfrifon ar dudalen 58. Mae'n dangos fod gweithiwr yn y categori cyflog dros £120k, o gymharu ag uchafswm o £85k yn y Cyfrifon y llynedd. Dywedodd Mr Ian Howse, Deloitte, fod y mater yn ymwneud â phecyn diswyddo ar gyfer Pennaeth ysgol.
- Nodwyd fod y llog a gafwyd wedi cynyddu £37k o gymharu â'r swm yn y Datganiad o'r Cyfrifon drafft, a gofynnwyd a fyddai hynny'n cael effaith ar y tabl incwm a gwariant cynhwysfawr neu ar y tanwariant a ddatganwyd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y gallai'r newid fod yn gamgymeriad yn Nodyn 44d ac efallai nad yw wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon ei hun. Nododd y byddai'n rhoi sylw i'r anghysondeb maes o law.
- Gofynnwyd a rannwyd arian o Ymddiriedolaeth Elusennol David Hughes i gynorthwyo pobl ifanc yn yr ysgolion uwchradd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth er bod cyfeiriad at Ymddiriedolaeth Elusennol David Hughes yn y Datganiad o'r Cyfrifon, bydd adroddiad llawn ar Gyfrifon Ymddiriedolaeth Elusennol David Hughes yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd. Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod swm o £276,400 wedi'i drosglwyddo i ysgolion yn 2019 tuag at gostau anogwyr dysgu a bod pob ysgol uwchradd wedi derbyn swm o £8,560 tuag at grantiau i ddisgyblion.

Roedd Mr Ian Howse, Deloitte, yn dymuno llongyfarch y Cyngor ar gyflawni'r amserlen statudol wreiddiol ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifon drafft ac am wneud gwaith o safon uchel iawn yn ystod cyfnod anodd oherwydd y pandemig Covid-19. Nododd y bydd mân gamgymeriadau teipio'n cael eu cywiro cyn cyflwyno'r adroddiad i Gyngor Llawn yr Awdurdod. Dywedodd Mr Howse fod y lefel 'perthnasedd' wedi ei osod ar £3.7m sy'n berthnasol i unrhyw awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn seiliedig ar wariant blynyddol. Nododd fod rhywfaint o waith angen ei gwblhau, y cyfeirir ato ym mharagraff 5 yr adroddiad, a dywedodd y byddai gwaith ar y Rhwymedigaethau Pensiwn yn cael ei gwblhau a'i adolygu ar ôl derbyn sicrwydd SCR19 gan yr Archwiliwr y Gronfa Bensiwn yn ogystal â chasgliad mewn perthynas ag achosion McCloud a Goodwin. Dywedodd Mr Howse y byddai'r gwaith sydd angen ei orffen yn cael ei gwblhau cyn i'r Cyfrifon llawn gael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn er mwyn eu derbyn.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau fel a ganlyn:-

- Cyfeirir at reolaethau 'Cyflogres' yn yr adroddiad a nodir y byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad ar y mater. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod yr awdurdod wedi wynebu anawsterau dros nifer o flynyddoedd mewn perthynas â gwahanu dyletswyddau yn briodol o fewn y tîm cyflogau oherwydd cyfyngiadau o ran lefelau staffio. Ailstrwythurwyd y tîm y llynedd a chyflogwyd aelod ychwanegol fel Gweinyddwr System sydd â'r swyddogaeth o osod lefelau mynediad i'r system gyflogau ac i gynhyrchu adroddiad eithriadau cyn awdurdodi pob cyflogres. Mae'r adroddiad eithriadau'n darparu rhestr fanwl o aelodau staff newydd a staff sy'n gadael a thaliadau sy'n uwch na therfynau penodol a bennir ymlaen llaw. Mae'r Archwilwyr Mewnol wedi adolygu'r system a roddwyd mewn lle ac wedi nodi fod y lefel sicrwydd yn

DRAFT

foddhaol. Bydd yr adroddiad eithriadau yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod y cyfarfod nesaf.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei fod yn dymuno diolch i Mr Ian Howse a'i dîm gan mai hwn fydd yr Adroddiad Archwilio Allanol olaf gan Deloitte. Nododd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am yr archwiliad ariannol o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

**PENDERFYNWYD:-**

- Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cadarnhau derbyn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2019/20;
- Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w llofnodi.

DRAFFT

**Y CYNGHORYDD PETER ROGERS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyngor Sir Ynys Môn

**Cyfeirnod:** 2101A2020-21
**Dyddiad cyhoeddi:** 4 Tachwedd 2020

Annwyl Annwen,

## Cyngor Sir Ynys Môn – Ymateb ac adfer yn sgil COVID-19 – Sicrwydd Dros Dro

Roeddwn yn dymuno ysgrifennu atoch er mwyn crynhoi ein casgliadau cynnar yn seiliedig ar ein gwaith parhaus o fonitro eich adferiad yn sgil COVID-19.

O'r gwaith y mae Archwilio Cymru wedi ei wneud hyd yma, fe'm sicrhawyd bod adferiad Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn sgil effaith y pandemig wedi elwa ar ymgysylltu rhagweithiol ar lefel ranbarthol ac ar lefel leol a bod prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau y Cyngor wedi dangos arweinyddiaeth ar y cyd gref a chyson.

Mae ymrwymiad y Cyngor i ailgyflwyno proses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau, gwerthfawrogi cyfathrebu, cynllunio ariannol blaengar ac ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid i gyd wedi bod yn elfennau nodedig o'r daith adfer.

Rwyf wedi nodi yn yr atodiad i'r llythyr hwn rai o'r meysydd allweddol yr ydym wedi edrych arnynt. Mae'r gwaith hwn wedi ei wneud i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'n hysbysiad preifatrwydd ar gael ar ein gwefan.

Yn gywir



Jeremy Evans, Rheolwr Archwilio

## Atodiad

Yn ystod gwanwyn 2020, cafodd pandemig COVID-19 effaith ddigynsail ar ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan gynghorau swyddogaeth allweddol i helpu i gadw staff a phreswylwyr yn ddiogel, addasu eu trefniadau gwneud penderfyniadau, blaenoriaethu gwasanaethau a chydweithio â phartneriaid er mwyn ceisio cyfyngu ar ledaeniad ac effaith y feirws. Ers dechrau mis Mai, rydym wedi bod yn edrych ar ddull adfer y Cyngor, ac yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi arsylwi cyfarfodydd, adolygu dogfennau a chynnal cyfarfodydd ar-lein gyda swyddogion a chynghorwyr allweddol.

Dyma rai enghreifftiau o'r gwaith yr ydym wedi ei wneud:

**Arsylwi cyfarfodydd:**

Y Weithrediaeth

Pwyllgor Craffu Corfforaethol

Cyngor Sir Ynys Môn

Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio

Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Cyfarfod Bwrdd y Rhaglen Gorfforaethol – Trawsnewid Gwasanaethau

Hefyd, rydym wedi arsylwi cyfarfodydd rhanbarthol y Grŵp Cydgysylltu Adferiad a'r Grŵp Adferiad Economaidd Rhanbarthol dan ofal y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

**Dogfennau a adolygwyd**

Yr holl bapurau agenda yn gysylltiedig â'r cyfarfodydd a nodwyd a'r dogfennau mewnol a ddarparwyd gan y Cyngor.

Yn seiliedig ar y gwaith hwn, rwyf wedi nodi rhywfaint o fy nghanfyddiadau isod:

## Cadw staff yn ddiogel

Ym mis Mawrth 2020 rhoddodd y Cyngor ei drefniadau cynllunio mewn argyfwng ar waith a lleihau rhai gwasanaethau. Pan fo hynny'n bosibl mae staff wedi gweithio gartref er mwyn cyfyngu ar ledaeniad y feirws. Ar y dechrau cafodd swyddfeydd eu cyfyngu i ddarparu cymorth i wasanaethau rheng flaen. Wrth symud ymlaen mae gan y Cyngor gymysgedd o weithio gartref, yn y swyddfa ac ar safle. Wrth i fwy o wasanaethau'r Cyngor gael eu hailgyflwyno, cymerwyd camau ychwanegol i ddarparu amgylchedd diogel i'r cyhoedd a'r staff.

Mae mesurau fel system apwyntiadau yn cael eu defnyddio'n aml i reoli nifer yr unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau'n ffisegol ar yr un pryd. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Cyngor bob amser wedi cydnabod bod Technoleg Gwybodaeth yn

chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau, ac mae cyllideb 2020-21 yn nodi mwy o fuddsoddiad mewn TG i gefnogi darpariaeth gwasanaethau.

## Addasu trefniadau gwneud penderfyniadau

Gohiriodd y Cyngor gyfarfodydd llywodraethu ffurfiol ym mis Ebrill 2020 ac ailddechrau cyfarfodydd democrataidd ffurfiol ym mis Mai 2020 trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd a Microsoft Teams. Cyflwynwyd holl benderfyniadau'r Weithrediaeth a wnaed yn ystod yr ymateb i'r pandemig i gyfarfod llawn y Cyngor ym mis Medi 2020, a chyflwynwyd strategaeth ar gyfer ailgyflwyno cyfarfodydd.

Er y bu ambell enghraifft o boenau tyfu, mae'r Cyngor wedi addasu'n dda i'w amgylchedd cyfarfodydd newydd ac wedi dangos ymrwymiad i sicrhau bod y trefniadau newydd yn gweithio. Mae'r Cyngor wedi ymdrechu i wella cyfarfodydd ar-lein ac wedi edrych eto ar feysydd megis pleidleisio mewn cyfarfodydd a chynnal cyfarfod dwyieithog er mwyn sicrhau bod trefniadau yn effeithiol ac yn cefnogi proses agored a thryloyw o wneud penderfyniadau.

## Blaenoriaethu gwasanaethau

Cafodd y pandemig effaith anochel ar wasanaethau gyda llawer o wasanaethau'n cau ac eraill yn lleihau'r lefel arferol o wasanaeth er mwyn atal COVID-19 rhag lledaenu. Mae parodrwydd aelodau staff i gael eu hadleoli ac i ymgymryd â gwaith neu swyddogaeth wahanol wedi cefnogi cymunedau'r ynys ac wedi cyfrannu at gydnerthedd gwasanaethau'r Cyngor.

Bydd parhau i gyflawni rhaglenni allweddol a phrosiectau â blaenoriaeth yn rhan o'r rhaglen drawsnewid yn cyfrannu at gydnerthedd gwasanaethau. Bydd rhaglenni fel 'Cynyddu nifer Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol', a chyflwyno 'Cartrefi Clyd' a 'fflatiau hyfforddi' yn cyfrannu'n gadarnhaol at **Gefnogi Oedolion a Theuluoedd Agored i Niwed er mwyn eu Cadw'n Ddiogel, Iach ac Mor Annibynnol â Phosibl** a Chynllun ehangach y Cyngor yn ogystal â chydnerthedd cyffredinol y Cyngor.

## Gwerthfawrogi Cyfathrebu

Mae'r Cyngor wedi gwneud ymdrechion sylweddol i gyfathrebu ag ystod eang o gynulleidfaoedd ac amlygir y bwriad gan bresenoldeb cynrychiolydd yr Uned Gyfathrebu mewn cyfarfodydd allweddol. Mae enghreifftiau o'r dull gweithredu cynhwysfawr hwn yn cynnwys:

- negeseuon gan y Prif Weithredwr i'r staff ynghyd â chylchlythyr y staff;
- sesiynau briffio rheolaidd i'r aelodau;
- presenoldeb sylweddol ar y cyfryngau cymdeithasol;
- rhannu negeseuon â phartneriaid allweddol; a
- rhannu gwybodaeth a chreu cynnwys newyddion drwy nifer sylweddol o ddatganiadau i'r wasg

## Cynllunio Ariannol i gefnogi gwasanaethau

Mae’r Weithrediaeth wedi cael adroddiadau manwl sy’n amcangyfrif effaith ariannol gynnar pandemig COVID-19 yn ogystal â nodi pwysau yn y dyfodol ar wasanaethu’r Cyngor. Mae’r ail wedi nodi meysydd lle ceir pwysau ar y gyllideb ac mae’r rhain yn bennaf yn gysylltiedig â’r gweithlu, newidiadau demograffeg a chwyddiant cyffredinol.

## Gweithio gyda phartneriaid

Mae’r Cyngor yn parhau i weithio gyda’r ystod lawn o bartneriaid i gefnogi cymunedau’r Ynys a’r rhanbarth yn ehangach. Mae gan y Cyngor berthynas gynhyrchiol â nifer o bartneriaid allweddol sydd wedi helpu i ymateb i heriau’r pandemig. Mae’r Cyngor hefyd wedi datblygu perthynas â thimau gwirfoddoli yn y gymuned i gefnogi'r rhai hynny sydd mewn angen. Er enghraifft sefydlwyd partneriaeth rhwng y Cyngor, Menter Môn a Medrwn Môn er mwyn cefnogi’r rhai agored i niwed yn eu cymunedau.

## Ymateb i heriau heddiw a chynllunio ar gyfer adferiad

Wrth i ni ddechrau ar ail gyfnod o bandemig COVID-19, a gweithredu cyfnod atal byr, bydd y Cyngor unwaith eto’n cysoni ei adnoddau i gefnogi cymunedau ar yr Ynys. Wrth ymateb i ail don o COVID-19, dylai’r Cyngor allu manteisio ar ei brofiadau a’r hyn a ddysgwyd wrth ymateb i’r don gyntaf. Efallai bydd y Cyngor hefyd yn gallu nodi cyfleoedd i barhau i gyflawni elfennau blaenoriaeth o’r rhaglen drawsnewid a ffurfioli cynlluniau adfer, a fydd yn cyfrannu at gydnerthedd gwasanaethau’r Cyngor.

Diwedd.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 1 Rhagfyr 2020 |
| **Pwnc:** | Diweddariad ar y Strategaeth a'r Blaenoriaethau Archwilio Mewnol ar gyfer 2020-21 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd :**<br>Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgorau archwilio Cynghorau, yn benodol, i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. | |

## Rhagarweiniad

1. O ganlyniad i'r pandemig cyfredol, mae'r Cyngor wedi gorfod blaenoriaethu ei adnoddau ac ymdrechion ei weithlu, felly mae cynnal 'busnes fel arfer' wedi bod yn anodd. Fodd bynnag, er bod hanner y tîm Archwilio Mewnol wedi'i adleoli o fewn y sefydliad tan ddiwedd Awst 2020, mae gwaith 'archwilio mewnol' wedi parhau ac wedi canolbwyntio ar y meysydd sydd â'r gwerth a'r risg fwyaf i'r sefydliad, gan ymateb i geisiadau am sicrwydd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chynnal archwiliadau gorfodol o grantiau penodol.

2. Felly rydym wedi darparu'r diweddariad byr hwn, sy'n adewyrchu'r sefyllfa fel yr oedd ar 16 Tachwedd 2020, ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 1 Medi 2020, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.

**Y CYD-DESTUN CYFREDOL**

4. Mae angen bod yn hyblyg i sicrhau bod gwaith archwilio yn cwrdd ag anghenion y Cyngor yn yr amgylchedd risg a rheolaeth hwn sy'n newid yn barhaus. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi mabwysiadu ymagwedd arloesol a hyblyg tuag at gynllunio ei waith ers 2018/19 er mwyn pennu ei flaenoriaethau archwilio. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod ymagwedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi parhau i fod yn gymesur mewn hinsawdd lle mae adnoddau wedi prinhau.

5. Yn ogystal, amlygodd cyfarfod o gydweithwyr o bob rhan o'r DU ar 14 Hydref 2020 ei bod yn hanfodol, yn y sefyllfa bresennol, sicrhau bod y cynllun archwilio'n gyfredol a'i fod yn cael ei adolygu'n barhaus. Mae Archwilio Hyblyg a chynllunio Archwilio Hyblyg bellach yn declynnau allweddol; mae cynllunio gwaith archwilio tymor hir, hyd yn oed am y 12 mis nesaf, yn afrealistig ac yn ddi-fudd. Felly mae llwyth gwaith y tîm archwilio mewnol yn cael ei adolygu'n gyson, mewn ymgynghoriad agos gyda'r Rheolwr Risg ac Yswiriant a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

**GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF**

6. Yn dilyn cyflogi Uwch Archwilydd newydd ddechrau mis Awst ac wedi i staff a oedd wedi eu hadleoli ddychwelyd ddiwedd mis Awst, mae'r gwaith wedi ailgychwyn ac wedi parhau ar gyflymder:

| **Maes Archwilio** | **Dyddiad yr adroddid terfynol** | **Lefel Sicrwydd** | **Trychinebus** | **Mawr** | **Cymedrol** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion | Medi 2020 | Cyfyngedig | 0 | 1 | 4 |
| Proses Gadawyr | Medi 2020 | Cyfyngedig | 0 | 1 | 3 |
| Cyflogres - Gwahanu Dyletswyddau (Pedwerydd Adroddiad Dilyn-i-Fyny) | Medi 2020 | Rhesymol | 0 | 0 | 1 |
| Grant Rhentu Doeth Cymru 2019/20 | Medi 2020 | Sylweddol | 0 | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant sy'n Derbyn Gofal 2019/20 | Medi 2020 | Sylweddol | 0 | 0 | 0 |
| Mân Ddyledwyr (Trydydd Adroddiad Dilyn-i-Fyny) | Medi 2020 | Rhesymol | 0 | 0 | 5 |
| Grant Addysg Awdurdod Lleol - Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig 2019/20 | Tachwedd 2020 | Sylweddol | 0 | 0 | 0 |

7. Yn unol â chais y Pwyllgor, mae'r adroddiadau llawn a'r cynlluniau gweithredu ar gyfer y ddau adroddiad 'Sicrwydd Cyfyngedig' wedi'u dosbarthu ar wahân i aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau Portffolio perthnasol.

8. Bydd y swyddogion cyfrifol yn bresennol yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau a fo gan y Pwyllgor ar y ddau adroddiad hyn:

- Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion - Rhys Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc; Aaron Evans, Uwch Reolwr (Sector Uwchradd), Dysgu Gydol Oes

- Proses Gadawyr - Carys Edwards, Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid, Trawsnewid Corfforaethol; Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

**GWAITH SY'N MYND RHAGDDO**

9. Mae amryw o archwiliadau'n mynd rhagddynt:

| **Maes Archwilio** | **Gwasanaeth** | **Rheswm Archwilio** | **Cam** | **Dyddiad arfaethedig yr adroddiad terfynol** |
|---|---|---|---|---|
| Credydwyr – Cynnal Cyflenwyr | Adnoddau | Twyll | Adroddiad drafft wedi ei gyhoeddi | Tachwedd 2020 |
| Panel Rhiant Corfforaethol | Gwasanaethau Cymdeithasol | Cais gan yr Uwch Arweinyddiaeth | Adroddiad anffurfiol drafft wedi ei gyhoeddi | Rhagfyr 2020 |
| Sicrwydd Rheoli Argyfwng (Sicrwydd rheng flaen) | Corfforaethol | Risg uchel – yn ymwneud â Covid 19 | Sgopio a pharatoi | Ionawr 2021 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad | Adnoddau / Gwasanaeth Dysgu | Amod grant | Gwaith maes | Rhagfyr 2020 |
| Grant Addysg Awdurdod Lleol - Dyfarniad Tâl Athrawon - Pwysau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Dyfarniad Tâl i Athrawon | Adnoddau / Gwasanaeth Dysgu | Amod grant | Adroddiad drafft wedi ei gyhoeddi | Rhagfyr 2020 |

| Maes Archwilio | Gwasanaeth | Rheswm Archwilio | Cam | Dyddiad arfaethedig yr adroddiad terfynol |
|---|---|---|---|---|
| Grant Addysg Awdurdod Lleol - Dysgu proffesiynol i gefnogi a gwella ansawdd ein hathrawon | Adnoddau / Gwasanaeth Dysgu | Amod grant | Gwaith maes | Rhagfyr 2020 |
| Grant Addysg Awdurdod Lleol - Lles - Ymagwedd ysgol gyfan at iechyd meddwl a lles emosiynol | Adnoddau / Gwasanaeth Dysgu | Amod grant | Gwaith maes | Rhagfyr 2020 |
| Grant Addysg Awdurdod Lleol - Cost y dyfarniad tâl athrawon (ac eithrio'r 6ed dosbarth) | Adnoddau / Gwasanaeth Dysgu | Amod grant | Gwaith maes | Rhagfyr 2020 |
| Grant Addysg Awdurdod Lleol - Costau Prydau Ysgol Am Ddim Ychwanegol oherwydd cyflwyno Credyd Cynhwysol | Adnoddau / Gwasanaeth Dysgu | Amod grant | Gwaith maes | Rhagfyr 2020 |
| Adennill Dyledion i'r Cyngor | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 | Sgopio a pharatoi | Ionawr 2021 |
| Nodi Anfonebau Dyblyg ac Adennill Taliadau Dyblyg | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 | Sgopio a pharatoi | Ionawr 2021 |

10. Mae'r gwaith isod hefyd yn mynd rhagddo:

**Menter Genedlaethol Atal Twyll**

11. Mae'r ymarferiad a gynhelir bob dwy flynedd dan y Fenter Atal Twyll wedi cychwyn. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn mandadu'r ymarferion

cyfatebu data hyn o dan ei bwerau statudol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

12. Rydym yn gweithio gyda gwasanaethau i dynnu data i'w uwchlwytho i'r porth Atal Twyll Cenedlaethol, sy'n waith gorfodol ac y mae'n rhaid ei gwblhau erbyn 1 Rhagfyr 2020 ar gyfer y mwyafrif o'r setiau data gofynnol.

13. Ychwanegwyd ymarfer newydd eleni i gyfatebu data i ddarganfod twyll posib mewn perthynas â'r rhaglen gymorth sy'n gysylltiedig â Covid-19. Ym mis Rhagfyr 2020, bydd gofyn i ni gyflwyno data ar gyfer y Gronfa Grant Busnesau Bach a'r Gronfa Grant Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden.

14. Bydd yr ymarfer dan y Fenter Genedlaethol Atal Twyll yn golygu dadansoddi data er mwyn nodi:

- grantiau busnesau bach lluosog yn cael eu talu i fusnesau o fewn awdurdodau lleol
- dyblygu rhwng cynlluniau grant lle bo hynny'n berthnasol; a
- taliadau a wneir i fusnesau neu unigolion sydd wedi eu hamlygu ar ‘restr wylio ar gyfer twyll’ lle bo’r fath ddata ar gael

15. Ar hyn o bryd, nid yw'r Fenter Atal Twyll yn gofyn am gyflwyno data am grantiau a dalwyd o'r Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Clo ac sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Clo Byr. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn gofyn am y data hyn ar gyfer ymarferiad yn y dyfodol.

16. Rhaid cwblhau ymarferiad pellach sy'n cynnwys data Treth Gyngor a'r Gofrestr Etholiadol rhwng 1 Rhagfyr 2020 a 29 Ionawr 2021.

**Camau Gweithredu sy’n rhedeg yn hwyr**

17. Oherwydd bod gwasanaethau wedi bod yn chwarae rhan fawr yn yr ymateb i’r argyfwng, rhoddwyd gorau am y tro i ddilyn i fyny ar gamau i fynd i’r afael â’r ‘Materion / Risgiau’ yr oeddem wedi’u codi yn ein hadroddiadau.

18. Arweiniodd hyn at nifer o gamau yn mynd ar ei hôl hi ac rydym wedi ailgychwyn ein gwaith yn y maes hwn. Rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar y maes Adnoddau, gan mai dyma lle mae'r mwyafrif o'r gweithredoedd y mae angen ailgydio ynddynt.

19. Mae’r dangosfwrdd 4action yn Atodiad 1 yn crynhoi’r sefyllfa fel yr oedd ar 16 Tachwedd 2020. Mae gwasanaethau wedi bod yn gweithio’n galed i fynd i’r afael â ‘Materion / Risgiau’ sydd angen sylw, gan adael dim ond pum gweithred sy’n hwyr ar hyn o bryd – sy’n ymwneud â chaffael, y gyflogres a thalu rhent trwy archeb sefydlog. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i weithredu'r holl gamau sy'n weddill.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER GWEDDILL Y FLWYDDYN**

20. Bydd y gwaith canlynol yn cael ei flaenoriaethu am weddill y flwyddyn, ond parheir i fod yn hyblyg hefyd fel y gellir ymateb i unrhyw waith sy'n codi ar fyr rybudd, ac unrhyw geisiadau gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Rhoddwyd

gwybod i'r Pwyllgor am y ddau ddarn cyntaf o waith yn ei gyfarfod ar 1 Medi 2020:

- Rheoli'r Risg o Dwyll
- Ysgogiad Ariannol NDR (Grantiau Busnes) – sicrwydd ar ôl talu

**Digartrefedd (YM45)**

21. Dechreuwyd edrych ar y maes gwaith hwn cyn y cyfnod clo, oherwydd iddo gael ei nodi yn y gofrestr risg gorfforaethol gyda graddfa risg weddilliol 'Mawr' fel rhan o'r risgiau sy'n deillio o'r Diwygiadau Lles (YM10 gynt). Mae'r UDA wedi newid y cofnod yn y gofrestr risg bellach, sydd yn awr yn canolbwyntio'n ehangach ar y risgiau sy'n gysylltiedig â thlodi (YM45).

22. Gohiriwyd y gwaith oherwydd bod y Gwasanaeth Tai wedi chwarae rhan fawr yn yr ymateb brys, ond bydd yn ailgychwyn cyn diwedd y flwyddyn gan ganolbwyntio ar y cofnod diwygiedig yn y gofrestr risg.

**Gosod Tai**

23. Er bod Covid 19 wedi effeithio arno'n fwy diweddar, mae'r mesur perfformiad yn y cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer gosod tai wedi dangos perfformiad sy'n gyson wael, ac mae wedi dod i sylw'r Pwyllgor Gwaith. Mae'r Pwyllgor Gwaith felly wedi gofyn i ni adolygu'r maes hwn i benderfynu beth sy'n ei achosi.

**Gwywiad yr Onnen (YM47)**

24. Gwywiad yr Onnen, Hymenoscyphus fraxineus (a elwid gynt yn Chalara fraxinea), yw'r clefyd mwyaf arwyddocaol i effeithio ar goed yn y DU ers Clefyd Llwyfen yr Isalmaen. Bydd yn arwain at ddirywiad a marwolaeth bosib mwyafrif y coed ynn ym Mhrydain ac fe all heintio mwy na dwy biliwn o goed ynn (dros 1.8 biliwn o goed ifanc ac eginblanhigion i fwy na 150 miliwn o goed aeddfed) ledled y wlad.

25. Bydd gwywiad yr onnen yn arwain at newidiadau i'n tirwedd a nifer ein coed, newidiadau i fioamrywiaeth a chymeriad y dirwedd ac o bosib yn cynyddu effeithiau fel llifogydd a achosir gan y ffordd y mae dŵr yn rhyngweithio â'r amgylchedd. Y consensws cyfredol yw y bydd hyd at 85 - 90% o goed ynn yn marw neu'n cael eu heffeithio'n ddifrifol dros y 5 - 15 mlynedd nesaf, ac felly mae graddfa'r risgiau iechyd a diogelwch a achosir gan glefyd gwywiad yr onnen yn unig yn golygu na fydd yn 'fusnes fel arfer i unrhyw sefydliad sy'n rheoli coed ynn. Gallai arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu niweidio oherwydd coed yn cwympo a chynnydd posib mewn hawliadau eiddo.

26. Bydd angen i'r Cyngor adolygu a, lle bo angen, wneud newidiadau i gyfundrefnau ac arferion rheoli diogelwch coed. Bydd gan hyn oblygiadau mawr o ran adnoddau oherwydd bydd angen gwneud gwaith i sicrhau bod

coed ynn sy'n agos at ffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus, mannau cyhoeddus, rheilffyrdd, a cheblau ffôn a thrydan yn ddiogel.

27. Er bod rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch sut y bydd Gwywiad yr Onnen yn effeithio ar ein cymdeithas, gellir rhagweld y bydd yn arwain at golli mwynderau cyfredol a risg uwch, ynghyd â chostau uwch i reoli'r risgiau hynny.

28. Oherwydd cynifer y coed ynn mewn parciau ac ar ymylon ffyrdd, mae'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo wedi codi'r mater hwn gyda ni. Mae'r UDA hefyd wedi cydnabod y risg hon yn ei chofrestr risg gorfforaethol (YM47), gyda risg gynhenid 'Difrifol' a risg weddilliol 'Mawr' yn dilyn mesurau lliniaru. Byddwn yn adolygu'r mesurau lliniaru hyn a'r camau a gymerwyd gan y Cyngor i ddeall maint y broblem, y risgiau a pha mor effeithiol y mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau hyn.

**Archwiliad TG**

29. Fel sy'n wir am bob sefydliad, mae technoleg yn rhan annatod o'r holl weithgareddau dydd i ddydd a dibynnir ar argaeledd a pharhad gwasanaethau digidol a chysylltedd, yn enwedig yn ystod y pandemig cyfredol lle mae mwyafrif y defnyddwyr yn gweithio gartref. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cyflwyno ei strategaeth 'Ynys Ddigidol' i ddarparu gwasanaethau digidol effeithiol ac effeithlon i bobl Ynys Môn.

30. Mae angen sicrwydd bod gan y Gwasanaethau TGCh y dechnoleg, y capasiti a'r gallu i fedru cynnal lefel o wasanaeth i alinio ag amcanion craidd y Cyngor ac i sicrhau cyfrinachedd, diogelwch ac argaeledd data'r cyngor.

31. Nid oes gan y tîm Archwilio Mewnol y gallu technegol i ddarparu'r sicrwydd hwn, felly rydym wedi comisiynu tîm Archwilio TG Dinas Salford i wneud dau ddarn o waith sicrwydd ar ein rhan. Mae'r darn cyntaf yn gyfrinachol ond byddwn yn darparu mwy o fanylion maes o law. O ran yr ail ddarn o waith, ar hyn o bryd rydym yn trafod gyda'r gwasanaeth TGCh i gytuno ar bwnc sydd o fudd i'r ddau wasanaeth.

32. Gwneir y ddau ddarn o waith cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**GWAITH SYDD WEDI EI 'BARCIO'**

33. Ystyrir bod yr archwiliadau canlynol (blaenoriaethau'r Gofrestr Risg Gorfforaethol) yn flaenoriaeth isel ar gyfer sicrwydd; nid ydynt wedi datblygu'n sylweddol fel prosiectau ac felly ni fyddai archwiliad ar hyn o bryd yn darparu unrhyw fudd na sicrwydd sylweddol. Felly mae'r archwiliadau'n cael eu 'parcio' nes bod adnoddau'n caniatáu neu nes bod digon o waith wedi cychwyn arnynt:

- YM32 - Buddsoddi mewn Cyfleusterau Hamdden
- YM15 - Prosiect moderneiddio ysgolion
- YM17 - Seilwaith yr ynys

Tudalen 16

# ATODIAD 1 – CAMAU SYDD AR EI HÔL HI (DANGOSFWRDD 4ACTION)




## Overdue Issues/Risks by Service

| Analysis Code | Count |
|---|---|
| Adnoddau / Resources | 5 |

## All outstanding Issues/Risks by Service

| Analysis Code | Count |
|---|---|
| Tai / Housing | 1 |
| Dysgu / Learning | 17 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol / Social Services | 3 |
| Adnoddau / Resources | 24 |
| Busnes y Cyngor / Council Business | 1 |
| Uwch Dim Arweinyddu / Senior Leadership Team | 1 |
| Trawsnewid / Transformation | 11 |

## Outstanding Red Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|

0 of 0

## Outstanding Limited Assurance Reports

| Analysis Code | Count |
|---|---|
| Primary Schools Themed Audit – Income Collection 171813 | 2 |
| IT Resilience 192003 | 6 |
| Leavers' Process 192014 | 4 |
| Management of School Unofficial Funds 192012 | 4 |

## Outstanding Amber Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|
| 3975 | Corporate Safeguarding 4 - Current monitoring of School DBS compliance by the Learning Service is ineffective. |
| 3983 | Cyber Security - While IT undertakes daily operational monitoring of network security, there is little high level, proactive monitoring to... |
| 3997 | Corporate Safeguarding 3 - The Council does not have an integrated Council-wide system to record and monitor compliance levels with Disclosure and... |
| 3999 | Cyber Security - Corporate scrutiny and reporting mechanisms for cybersecurity issues and risks are insufficient. This could result in the Council... |
| | Corporate Procurement... |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 1 Rhagfyr 2020 |
| **Pennawd yr Adroddiad:** | Adroddiad Gwerthuso Diogelu Data Ysgolion Môn- Ymweliad Gwerthusiad Cyntaf Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Ynys Môn gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion - Gorffennaf 2020 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Hysbysu'r aelodau o'r lefel o gydymffurfiaeth diogelu data a'r risg mewn perthynas ag ysgolion |
| **Adroddiad gan:** | Elin Williams, Swyddog Diogelu Data Ysgolion<br>Est: 1833, dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk |
| **Swyddog Cyswllt:** | Elin Williams, Swyddog Diogelu Data Ysgolion<br>Est: 1833, dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk |

**Pwrpas yr adroddiad hwn**

Darparu dadansoddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu mewn perthynas â ble mae'r ysgolion wedi cyrraedd o ran cydymffurfio â gofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data, yn bennaf o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol *(GDPR)* yn dilyn yr ymweliad cyntaf ag ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn dilyn yr ymweliadau ac yn cynnig y camau nesaf i'w cymryd i sicrhau bod pob ysgol yn bodloni gofynion diogelu data cyn gynted â phosibl.

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion am ganfyddiadau ymweliadau i 45 o ysgolion rhwng mis Hydref 2019 a mis Chwefror 2020 a'r camau a gymerwyd yn dilyn yr ymweliadau hyd at fis Gorffennaf 2020.

**Cyflwyniad**

Yn dilyn penodiad Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn y Gwasanaeth Dysgu yn ystod mis Awst 2019, ymgymerodd y swyddog â'r ymweliadau gwerthuso cyntaf mewn 45 o'r 46 o ysgolion cynradd ac uwchradd yn Ynys Môn.

Roedd yr ymweliadau hefyd yn gyfle i fynd ar drywydd rhai o'r pwyntiau gweithredu a gododd o adroddiad arolygiad *Zurich Risk Engineering UK* (dyddiedig Mehefin 2019). Comisiynodd y Cyngor *Strategic Risk Practice Zurich Risk Engineering UK* i gynnal adolygiad ac i baratoi adroddiad arolygiad ar lywodraethu data/gwybodaeth a'r lefel o weithrediad *GDPR* ar draws ysgolion Ynys Môn.

Nododd arolygiad *Zurich* 11 o feysydd gweithredu, gyda dau o'r rhain yn cael eu graddio'n 'Uchel', wyth yn 'Ganolig' ac un yn 'Isel'.

O ganlyniad i'r adroddiad hwn, crëwyd Cynllun Gweithredu rhwng y Gwasanaeth Archwilio a Risg, a Gwasanaeth Dysgu’r Cyngor er mwyn ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn adroddiad *Zurich.* Mae manylion am y datblygiadau o amgylch y pwyntiau gweithredu wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys camau arfaethedig i'w cymryd sy'n llywio rhaglen waith yn seiliedig ar ganfyddiadau.

**Crynodeb o Ganfyddiadau'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion**

- Mae **arferion** rheoli gwybodaeth dydd i ddydd mewn ysgolion yn dderbyniol ar y cyfan ond nid yw’r mwyafrif o ysgolion wedi mabwysiadu’r polisïau a’r dogfennau allweddol cyfredol gan na chrëwyd nifer o'r polisïau a’r dogfennau hyn ar gyfer ysgolion cyn penodiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion. Mae'n hanfodol bod polisïau a dogfennau craidd cyfredol yn cael eu mabwysiadu cyn gynted â phosibl. Mae COVID-19 wedi cael effaith ar yr amserlen ar gyfer cymeradwyo'r polisïau a’r dogfennau allweddol ond mae angen ceisio rhoi'r rhain ar waith, mewn partneriaeth â'r ysgolion, yn ystod tymor yr hydref.

- Mae angen sicrhau bod prosesau diogelu data penodol, effeithiol a chadarn ar waith. Mae hyn yn unol â'r polisïau a'r dogfennau allweddol. Ar hyn o bryd, nid oes prosesau cadarn ar waith o ran ymdrin â digwyddiadau diogelu data; ymdrin â cheisiadau am fynediad gan wrthrych y data; cyfyngu ar fynediad at wybodaeth bersonol; dileu data personol sydd wedi mynd heibio ei gyfnod cadw; rheoli risgiau diogelu data a chreu Asesiadau Effaith Diogelu Data ar gyfer prosesau risg uchel.

- Mae angen sicrhau bod gan ysgolion *ROPA* (gan gynnwys mapiau llif data) a Rhestr o Asedau Gwybodaeth ar waith sy’n cael eu cadw’n gyfredol.

- Mae angen sicrhau bod gan ysgolion Hysbysiadau Preifatrwydd addas a diweddar a'u bod yn cael eu rhannu a'u bod ar gael i unigolion, a bod ffurflenni casglu data a ffurflenni caniatâd yn cynnwys crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd.

- Mae angen cael cytundebau priodol ar waith gyda phroseswyr data lefel uchel a hefyd gydag ysgolion unigol. Bydd angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion weithio gyda'r ysgolion i sicrhau bod y rhain ar waith.

- Mae angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wneud mwy o waith gydag ysgolion ar y defnydd o ganiatâd gan gynnwys adolygu'r ffurflenni presennol.

- Mae angen diweddaru'r cynllun hyfforddi ac mae’n rhaid i ysgolion sicrhau bod eu holl staff wedi cwblhau'r modiwl ar-lein.

- Mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod pob corff llywodraethu ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data a sut i sicrhau bod ysgolion yn

cydymffurfio. Bydd angen i gyrff llywodraethu'r ysgol fabwysiadu'r polisïau diogelu data ar ran yr ysgolion a gofyn i ysgolion ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rhain.

| **Asesiad Sicrwydd Swyddog Diogelu Data Ysgolion (Gorffennaf 2020)** | **Sicrwydd Rhesymol** |
|---|---|
| Mae'r broses o ddechrau sefydlu polisïau, prosesau ac arferion i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wedi dechrau o fewn yr ysgolion, ond mae mwy o waith i'w wneud i gael pob ysgol ar yr un lefel ac yn gweithredu'n gyson ar draws yr ynys. | |

**Diweddariad ar Gynnydd ers Gorffennaf 2020**

Nodir bod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar weithredu’r camau i'w cymryd ac ar y rhaglen waith ar gyfer cymeradwyo'r polisïau; mabwysiadu'r polisïau a'r hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o hyn oherwydd blaenoriaethau allweddol eraill sy'n codi yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r cynnydd canlynol wedi'i wneud ers mis Gorffennaf 2020:

- Mae'r polisïau, y canllawiau a'r templedi allweddol ar gyfer ysgolion wedi'u cwblhau, eu cyfieithu ac maent yn barod i'w rhannu a'u mabwysiadu gan yr ysgolion.

- Mae Cynllun Polisi Diogelu Data Ysgolion ar waith sy'n nodi dyddiadau gweithredu'r gwahanol bolisïau, canllawiau, dogfennau allweddol a thempledi allweddol, a'r hyfforddiant a'r cymorth ar gyfer mabwysiadu'r rhain a fydd yn cael eu darparu. Caiff polisïau allweddol gwahanol eu cyflwyno a'u mabwysiadu o fis Rhagfyr 2020 hyd at fis Gorffennaf 2021 a threfnwyd rhaglen o ddyddiadau i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion roi cymorth ac arweiniad i ysgolion wrth weithredu'r rhain.

- Mae Cynllun Hyfforddi Diogelu Data Ysgolion wedi'i sefydlu. Mae'r sesiynau hyfforddi a drefnwyd o fis Tachwedd 2020 ymlaen ar gael ar-lein a thrwy dechnoleg yn hytrach na sesiynau wyneb yn wyneb yn unig. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i benaethiaid, athrawon, staff ysgolion a llywodraethwyr ysgol.

- Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cynnal adolygiad o'r defnydd o ganiatad a'r ffurflenni presennol sy'n cael eu defnyddio.

- Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r defnydd o systemau, rhaglenni ac apiau gan yr ysgolion ac i edrych ar y cytundebau sydd ar waith o amgylch y rhain ac effaith bosibl Brexit ar unrhyw gytundebau gyda darparwyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU.

**Argymhellion**

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Pwyllgor:

i. derbyn adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, gan gynnwys y canfyddiadau;
ii. y Pwyllgor yn cymeradwyo camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion i sicrhau bod pob ysgol yn gweithredu yn unol â gofynion diogelu data.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# ADRODDIAD GWERTHUSIAD DIOGELU DATA YSGOLION YNYS MÔN



ELIN WILLIAMS, SWYDDOG DIOGELU DATA YSGOLION

**Gorffennaf 2020**

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| 1. Cefndir a Chrynodeb Gweithredol | 4 |
| 2. Arolwg *Zurich Risk Engineering UK* | 4 |
| 3. Ymweld â'r Ysgolion | 5 |
| 4. Cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth *(ICO)* | 7 |
| 5. *Records of Processing Activities (ROPA)* | 7 |
| 6. Rhestr o Asedau Gwybodaeth | 8 |
| 7. Hysbysiad Preifatrwydd | 9 |
| 8. Polisi Diogelu Data | 9 |
| 9. Polisi *CCTV* | 10 |
| 10. Rheoli Risgiau Gwybodaeth | 10 |
| 11. Asesiadau Effaith Diogelu Data *(DPIAs)* | 11 |
| 12. Cytundebau gyda Phroseswyr | 11 |
| 13. Systemau, Rhaglenni, *Apps* mae'r Ysgolion yn eu Defnyddio | 12 |
| 14. Proses Ymchwilio; Hysbysu a Chofnodi Tor-rheolau | 12 |
| 15. Proses Delio gyda Chais gan Wrthrych y Data | 13 |
| 16. Cadw Data Personol yn Gywir a Chyfredol | 14 |
| 17. Hawliau o dan *GDPR* | 15 |
| 18. Polisi Rheoli Cofnodion | 15 |
| 19. Cydsyniad- Ffurflenni Caniatâd a Chasglu Data | 16 |
| 20. Rhannu Gwybodaeth yn Ddiogel | 16 |
| 21. Cofrestr Cyfnodau Cadw Cofnodion | 17 |
| 22. Prosesau a Threfniadau Dileu a Chael Gwared o Ddata Personol | 17 |
| 23. Storio Data Personol | 18 |
| 24. Hyfforddiant Diogelu Data | 18 |
| 25. Canlyniadau | 20 |
| 26. Camau Nesaf | 21 |
| ATODIAD A | 24 |
| ATODIAD B | 32 |

ATODIAD C

## 1. Cefndir a Chrynodeb Gweithredol

Yn dilyn penodiad Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn y Gwasanaeth Dysgu yn ystod mis Awst 2019, bu i'r swyddog ymgymryd ag ymweliadau gwerthusiad cyntaf ysgolion cynradd ac uwchradd Ynys Môn. Cynhaliwyd yr ymweliadau hyn rhwng Hydref 2019 a Chwefror 2020.

Cynhaliwyd yr ymweliadau fel man cychwyn o ran lle mae'r ysgolion wedi cyrraedd hyd at y pwynt hwn o ran cydymffurfio â gofynion dan ddeddfwriaeth diogelu data, yn bennaf dan *Reoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR)* a ddaeth i rym ym mis Mai 2018. Roedd hyn hefyd yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r Swyddog Diogelu Data ynglŷn â pha elfennau oedd angen eu blaenoriaethu o ran rhaglen waith ac yn gyfle i ddod i adnabod cysylltiadau allweddol o fewn yr ysgolion. Hefyd, roedd yn gyfle i ddilyn i fyny o'r pwyntiau gweithredu a gododd o arolwg *Zurich Risk Engineering UK* (*gweler eitem 2 isod*).

Yn dilyn yr ymweliadau, mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi dod i'r canlyniad bod ymarferion rheoli gwybodaeth dydd-i-ddydd o fewn yr ysgolion yn dderbyniol ond bod gwaith angen ei wneud ar sicrhau bod polisïau a dogfennau allweddol cyfredol wedi eu mabwysiadu gan yr ysgolion mor fuan â phosib ac mae angen sicrhau bod prosesau diogelu data penodol, effeithiol a chadarn ar waith. Mae angen sicrhau hefyd bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod cytundebau priodol ar waith gyda phroseswyr data. Mae cael cynllun hyfforddiant penodol ar gyfer staff yr ysgolion a'r corff llywodraethu hefyd yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod pawb o fewn y strwythur ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data nhw. Mae'n hanfodol bod yr ysgolion yn deall eu cyfrifoldebau a'u goblygiadau fel y Rheolydd Data a'r disgwyliadau cyfreithiol sy'n dod yn sgil hynny. Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi adnabod pa ddarnau gwaith sydd angen eu cwblhau gyda'r ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data ac yn cyflawni beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

| **Asesiad Sicrwydd Swyddog Diogelu Data Ysgolion (Gorffennaf 2020)** | **Sicrwydd Rhesymol** |
|---|---|
| **Mae'r broses o gychwyn cael polisïau, prosesau ac ymarferion ar waith er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wedi cychwyn o fewn yr ysgolion, ond mae mwy o waith i'w wneud i gael pob ysgol ar yr un lefel ac yn gweithredu'n gyson ar draws yr ynys.** | |

## 2. Arolwg *Zurich Risk Engineering UK*

Roedd y Cyngor wedi comisiynu *Strategic Risk Practice Zurich Risk Engineering UK* i wneud adolygiad a pharatoi adroddiad arolwg ar lywodraethu data/gwybodaeth a'r lefel o weithredu *GDPR* ar draws ysgolion Ynys Môn yn 2019. Roedd y gwaith yn cynnwys holiadur sefyllfa a oedd yn cynnwys senarios *GDPR* penodol ar gyfer y sector addysg a hefyd cyfweliadau wyneb-i-wyneb gyda 6 o ysgolion wedi eu dewis er mwyn deall eu dulliau nhw o ymdrin â llywodraethu gwybodaeth a diogelu data. Mi wnaeth 25 o'r 46 ysgol yrru ymateb yn ôl o ran yr holiadur (55%) a chafodd 5 o'r 6 ysgol eu cyfweld. Roedd *Zurich* hefyd yn adolygu deunydd hyfforddiant oedd yn rhan o raglen *GDPR* y Cyngor.

Un o'r materion oedd yn cael ei amlygu fwyaf yn yr adroddiad (dyddiedig Mehefin 2019) oedd nad oedd Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar waith ar y pryd. Roedd y cwmni'n pwysleisio bod y Swyddog Diogelu Data yn rhan arwyddocaol oedd ar goll yn y broses adolygu gan nad oeddent yn gallu trafod elfennau gweithredol a strategol o lywodraethu data â'r swyddog gan nad oedd un wedi ei benodi. Gwelwyd yr effaith o beidio cael Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar waith am dros flwyddyn yn y cyfnod gweithredu *GDPR* yn ystod yr ymweliadau gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion hefyd.

Roedd arolwg *Zurich Risk Engineering UK* yn adnabod 11 maes gweithredu, gyda dau o'r rhain wedi eu graddio yn 'Uchel', wyth yn 'Ganolig' ac un yn 'Isel'.

O ganlyniad i'r adroddiad hwn, mae Cynllun Gweithredu (ATODIAD A) wedi ei greu rhwng Gwasanaeth Archwilio a Risg y Cyngor a'r Gwasanaeth Dysgu er mwyn ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad *Zurich.* Pan adolygodd Gwasanaeth Archwilio a Risg y Cyngor y gweithredoedd ym mis Hydref 2019, rhoddwyd sicrwydd 'Rhesymol' ar gyfer rheoli risgiau, llywodraethu a rheolaeth *GDPR* o fewn yr ysgolion oherwydd penodiad Swyddog Diogelu Data Ysgolion (un o'r risgiau 'Uchel') a'r gwaith oedd yn cael ei wneud ganddi i gyfarch y pwyntiau gweithredu ar y pryd.

Mae'r 11 gweithred sydd wedi codi wedi eu gweithredu neu yn y broses o gael eu gweithredu ac yn ymddangos o fewn yr adroddiad hwn. Nodir bod COVID-19 wedi cael effaith ar gymeradwyo'r polisïau ac felly wedi cael effaith ar yr amserlen weithredu wreiddiol. Mae (ATODIAD A) yn rhoi diweddariad i fyny at fis Mehefin 2020.

## 3. Ymweld â'r Ysgolion

Fe ddefnyddiwyd ffurflen werthuso (ATODIAD B) ar gyfer yr ymweliadau a cafodd pob ysgol y ffurflen wedi ei chwblhau ar ei chyfer gyda sylwadau, gan gynnwys gweithredoedd a phrif risgiau diogelu data wedi eu hadnabod gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion

yn dilyn yr ymweliad. Mae nifer o'r pwyntiau o fewn y ffurflen yn cyd-fynd â'r cwestiynau sy'n ymwneud â *GDPR* o fewn yr Adolygiad Rheolaeth Ysgolion fel bod yr ysgolion yn gallu sgorio eu hunain o ran ble maent wedi ei gyrraedd o ran gweithredu ar *GDPR*.

Roedd yr ymweliad ar ffurf sgwrs ac nid oedd yr ymweliad hwn yn mynd i fanylder o ran gweld tystiolaeth o gydymffurfiaeth. Bydd hyn yn rhywbeth fydd i ddilyn ar ôl i'r ysgolion dderbyn fwy o arweiniad a chefnogaeth ymarferol o ran pa bolisïau a phrosesau penodol sydd angen bod ar waith. Roedd ymweliad yn cymryd ar gyfartaledd dwy awr i'w gwblhau a rhywbeth tebyg eto o ran amser paratoi'r ffurflen er mwyn ei rhannu â'r ysgolion yn dilyn yr ymweliad.

Roedd y Pennaeth yn bresennol yn y mwyafrif o'r ymweliadau ac/neu roedd person cyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol a swyddogion perthnasol eraill yn bresennol. Yn y mwyafrif o ysgolion cynradd, y Pennaeth sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol. Yn yr ysgolion uwchradd, mae Pennaeth Cynorthwyol neu swyddog arall yn dueddol o fod yn gyfrifol am faterion diogelu data.

Dyma'r 45 ysgol gafodd ymweliad gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn ystod cyfnod Hydref 2019 i Chwefror 2020:

<u>Ysgolion Cynradd</u>

Ysgol Gynradd Amlwch
Ysgol Beaumaris
Ysgol Gynradd Bodedern
Ysgol Bodffordd
Ysgol y Borth
Ysgol Bryngwran
Ysgol Brynsiencyn
Ysgol Cemaes
Ysgol Corn Hir
Ysgol Cybi
Ysgol Esceifiog
Ysgol Gymuned y Fali
Ysgol y Ffridd
Ysgol Garreglefn
Ysgol Goronwy Owen
Ysgol y Graig
Ysgol Henblas
Ysgol Kingsland
Ysgol Llanbedrgoch
Ysgol Llandegfan
Ysgol Llanfairpwll
Ysgol Llanfawr
Ysgol Llanfechell
Ysgol Llangoed
Ysgol Llannerch-y-medd
Ysgol Moelfre
Ysgol Gymraeg Morswyn
Ysgol Parc y Bont
Ysgol Pencarnisiog
Ysgol Pentraeth
Ysgol Penysarn
Ysgol Rhoscolyn
Ysgol Rhosneigr
Ysgol Rhosybol
Ysgol Rhyd y Llan
Ysgol Santes Dwynwen
Ysgol Santes Fair
Ysgol Talwrn
Ysgol y Tywyn

<u>Ysgolion Uwchradd</u>
Ysgol Uwchradd Bodedern

Ysgol Uwchradd Caergybi
Ysgol David Hughes
Ysgol Gyfun Llangefni
Ysgol Syr Thomas Jones

Ysgolion Arbennig
Canolfan Addysg y Bont

Yn wahanol i'r arolwg *Zurich*, nodir bod yr ysgolion ar yr ynys i gyd heblaw am Ysgol Caergeiliog wedi bod yn rhan o'r ymweliadau. Nid yw Ysgol Caergeiliog wedi cadarnhau eto a ydynt eisiau defnyddio'r gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion ai pheidio. Mae'r ysgolion yn talu cyfraniad tuag at y swydd.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ddarganfyddiadau'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn dilyn yr ymweliadau ac yn cynnig camau i'w cymryd nesaf er mwyn sicrhau bod yr ysgolion i gyd yn cyrraedd gofynion diogelu data mor fuan â phosib. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion o gwmpas camau sydd wedi eu cymryd yn dilyn yr ymweliadau hyd at Orffennaf 2020, gan gynnwys cyfarfod ag Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu ar y 20 Gorffennaf 2020 i drafod cymeradwyo polisïau, canllawiau a dogfennau allweddol diogelu data ysgolion.

## 4. Cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth *(ICO)*

Mae gofyn bod ysgolion yn talu ffi diogelu data blynyddol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth *(Information Commissioner's Office)* gan eu bod yn prosesu data personol. Roedd bron i bob ysgol wedi cofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod yr ymweliadau.

Roedd manylion y Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi eu hychwanegu yn erbyn cofrestriad pob ysgol.

Mae'n bwysig bod yr ysgolion yn sicrhau eu bod yn talu'r ffi ar amser, bob blwyddyn, er mwyn osgoi'r risg o gael dirwy. Mae'r Swyddog Diogelu yn cadw golwg ar hyn.

## 5. *Records of Processing Activities (ROPA)*

O dan *GDPR*, mae angen i’r ysgolion gael *Records of Processing Activities (ROPA)* ar waith. Nid oedd gan yr ysgolion *ROPA* ar waith yn ystod y cyfnod ymweliadau. Nid oedd hyn wedi ei drafod mewn manylder yn ystod yr ymweliadau ond mae hwn yn rhywbeth hanfodol sydd ei angen ar waith.

Mae’r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi creu templed a chanllaw *ROPA*. Cytunwyd ag Uwch Dîm Rheoli’r Gwasanaeth Dysgu bod gwaith angen ei wneud gydag un o’r ysgolion cynradd ac un o’r ysgolion uwchradd ar gwblhau *ROPA* a fydd yn cael ei rannu fel templed i’r ysgolion ei ddefnyddio a'i addasu fel bo’r angen. Bydd angen i’r ysgolion gadw hwn yn gyfredol a bod yn gyfrifol o’i ddiweddaru os oes unrhyw newidiadau i weithgareddau prosesu data.

Bydd y Swyddog Diogelu Data’n creu mapiau llif data ar gyfer prosesau gwahanol gyda’r ysgolion fel rhan o’r gwaith hwn hefyd.

## 6. Rhestr o Asedau Gwybodaeth

Mae gofyn bod gan yr ysgolion Restr o Asedau Gwybodaeth gyfredol sy’n dogfennu pa ddata personol a gedwir, o ble y daeth, gyda phwy mae’n cael ei rannu a’r hyn sy’n cael ei wneud â’r wybodaeth.

Roedd templed Rhestr o Asedau Gwybodaeth wedi cael ei rannu â’r ysgolion gan y Gwasanaeth Dysgu yn ystod haf 2018 er mwyn iddynt ei ddefnyddio i greu rhestr eu hunain ond roedd rhai o’r ysgolion yn adrodd bod y templed hwn yn gymhleth i’w ddefnyddio. O ganlyniad, nid oedd gan y mwyafrif o’r ysgolion Restr o Asedau Gwybodaeth yn ystod yr ymweliadau. Roedd gan 10 (22%) o’r ysgolion un ar waith neu wedi rhoi cynnig ar greu un.

Mae gwaith wedi ei wneud gydag un o’r ysgolion cynradd eisoes ar gwblhau Rhestr o Asedau Gwybodaeth cyn y cyfnod COVID-19, a fydd yn cael ei rhannu fel templed i’r ysgolion ei ddefnyddio. Bydd angen gwneud yr un peth gydag un o’r ysgolion uwchradd hefyd (roedd hyn wedi ei gytuno yn wreiddiol ar gyfer mis Mawrth 2020, ond roedd rhaid gohirio oherwydd COVID-19).

Mae Uwch Dîm Rheoli’r Gwasanaeth Dysgu wedi cadarnhau eu bod yn hapus â’r templed. Bydd y Swyddog Diogelu Data angen cwblhau Rhestr o Asedau Gwybodaeth gydag ysgol uwchradd, ac yna rhannu templed cynradd ac uwchradd â’r ysgolion er mwyn iddynt ei addasu ar gyfer eu hysgol nhw. Mae’n hanfodol bod gan bawb un cyfredol ar waith sy’n cael ei adolygu yn rheolaidd gan yr ysgol.

## 7. Hysbysiad Preifatrwydd

Roedd gan 12 (27%) o'r ysgolion Hysbysiad Preifatrwydd ar waith yn ystod y cyfnod ymweliadau.

Mae'n hanfodol bod gan yr ysgolion Hysbysiad Preifatrwydd dwyieithog cyfredol sy'n hysbysu unigolion am ba wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu a'i chadw gan yr ysgolion. Mae angen hysbysu unigolion o sut mae'r ysgolion yn defnyddio eu gwybodaeth bersonol ac i ba bwrpas. Mae Hysbysiad Preifatrwydd angen egluro'r pwrpas a'r sail cyfreithiol dros brosesu; nodi unrhyw drydydd parti y mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth gydag ef, yn ogystal ag unrhyw brosesydd allanol.

Roedd rhai o'r ysgolion wedi creu Hysbysiad Preifatrwydd eu hunain. Roedd templed wedi ei rannu ag ysgolion gan y Gwasanaeth Dysgu yn ystod haf 2018 i'w ddefnyddio i greu Hysbysiad Preifatrwydd eu hunain, ond roedd rhai o'r ysgolion yn adrodd bod y templed hwn yn gymhleth i'w ddefnyddio.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi creu templed Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a'r gweithlu ysgolion er mwyn creu cysondeb. Mae'r rhain yn y broses o gael eu cymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn eu gwirio. Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wrthi'n creu fersiwn plant a phobl ifanc hefyd.

Bydd angen i'r ysgolion fabwysiadu'r Hysbysiadau Preifatrwydd yn ffurfiol; gan sicrhau eu bod yn addas i'r ysgol (eu haddasu os ddim); eu rhannu gydag unigolion ar y pwynt o gasglu gwybodaeth (e.e. gwefan neu gyfrif cyfryngau cymdeithasol yr ysgol) a'u diweddaru a'u cadw'n gyfredol fel bo'r angen.

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn adolygu'r holl ffurflenni casglu data a ffurflenni caniatâd ac yn cynnwys crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd yn y dogfennau hyn. Yr ysgolion sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod wedi eu mabwysiadu ac yn cael eu cadw'n gywir ac yn gyfredol.

## 8. Polisi Diogelu Data

Mae gan rai ysgolion Bolisi Diogelu Data cyfredol ar waith. Rhannwyd y Polisi Diogelu Data â'r ysgolion gan y Gwasanaeth Dysgu yn 2018 i'w fabwysiadu yn sgil *GDPR* yn dod i rym.

Yn ystod yr ymweliadau, roedd 21 (47%) o'r ysgolion wedi mabwysiadu'r polisi hwn, ac roedd rhai dal yn defnyddio'r hen fersiwn cyn-*GDPR*, sydd ddim yn bolisi cyfredol. Nid oedd gan rai ysgolion Bolisi Diogelu Data o gwbl ar waith.

Mae'n hanfodol bod gan bob ysgol Bolisi Diogelu Data a'u bod yn monitro eu cydymffurfiaeth â'r polisi yn rheolaidd. Mae'r ysgolion angen sicrhau eu bod yn gallu tystiolaethu eu bod yn cydymffurfio â'r polisi a bod ganddynt broses ar waith i rannu'r polisi hwn ag unigolion.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi diweddaru'r Polisi Diogelu Data Ysgolion cyfredol. Roedd y polisi i fod i gael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu yn ystod tymor y gwanwyn yn wreiddiol ond mae'r amserlen wedi llithro oherwydd COVID-19. Mae hwn yn y broses o gael ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn ei wirio. Mae'r polisi hwn yn un allweddol ac mae'n bwysig bod yr ysgolion yn ei fabwysiadu mor fuan â phosib ac yn gallu tystiolaethu eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r polisi hwn.

## 9. Polisi CCTV

Yn ystod y cyfnod ymweliadau, roedd 21 (72%) allan o'r 29 ysgol sydd gan system *CCTV* wedi mabwysiadu'r Polisi *CCTV* cyfredol. Mae'n hanfodol fod gan bob ysgol sydd â *CCTV* bolisi ar waith a hefyd eu bod yn sicrhau fod ganddynt arwyddion o fewn ardaloedd sy'n cael eu monitro gan *CCTV* ar draws yr ysgol sy'n hysbysebu bod *CCTV* yn weithredol. Nid oedd gan 16 o'r ysgolion system *CCTV* gweithredol yn ystod y cyfnod ymweliadau.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi diweddaru'r Polisi *CCTV* Ysgolion cyfredol ac wedi creu Log System *CCTV* Ysgolion i'w ddefnyddio. Mae'r rhain yn y broses o gael eu cymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn eu gwirio.

Bydd yr ysgolion sydd gan *CCTV* gweithredol angen sicrhau eu bod wedi mabwysiadu'r polisi newydd ac yn gallu tystiolaethu eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r polisi yma.

## 10. Rheoli Risgiau Gwybodaeth

Nid oedd gan yr ysgolion brosesau rheoli risgiau gwybodaeth ar waith yn ystod y cyfnod ymweliadau. Mae'r ysgolion angen cael ffordd ffurfiol o adnabod risgiau o gwmpas data personol e.e. Rhestr Risg. Mae hyn yn ffordd i'r ysgolion allu tystiolaethu bod

risgiau'n cael eu hadnabod a bod camau lliniaru ar waith i ddelio â'r risgiau. Mae'n bwysig hefyd bod y corff llywodraethu yn ymwybodol o unrhyw risgiau gwybodaeth uchel. Mae hyn yn cyd-fynd â'r broses Asesiadau Effaith Diogelu Data.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi creu Rhestr Risg Diogelu Data Ysgolion a Matrics Risg Diogelu Data Ysgolion. Mae'r rhain yn y broses o gael eu cymeradwyo gan yr Uwch Dîm Rheoli Dysgu gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn eu gwirio. Bydd yr ysgolion yn gyfrifol am asesu ac adolygu'r risgiau a chadw'r Rhestr Risg yn gywir ac yn gyfredol.

Bydd angen i'r Swyddog Diogelu Data ddarparu hyfforddiant o gwmpas rheoli risgiau gwybodaeth i'r ysgolion. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Hyfforddiant Diogelu Data.

## 11. Asesiadau Effaith Diogelu Data *(DPIAs)*

O dan *GDPR*, mae gofyniad cyfreithiol i ysgolion gwblhau Asesiadau Effaith Diogelu Data *(DPIAs)* pan mae risg uchel yn y prosesu data. Nid oedd gan yr ysgolion broses ar waith ynglŷn â chwblhau Asesiadau Effaith Diogelu Data yn ystod y cyfnod ymweliadau.

Mae'r ysgolion yn ymwybodol bellach pa bryd y mae'n rhaid iddynt gynnal Asesiad Effaith Diogelu Data (h.y. pan maent yn defnyddio technoleg newydd sy'n debygol o fod yn risg uchel). Maent hefyd yn ymwybodol bellach bod y Swyddog Diogelu Data Ysgolion angen bod yn rhan o gwblhau unrhyw Asesiad Effaith Diogelu Data.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi creu Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion. Mae hwn yn y broses o gael ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn ei wirio. Bydd y polisi yn cyd-fynd â'r Rhestr Risg Diogelu Data Ysgolion a Matrics Risg Diogelu Data Ysgolion. Mae templed Asesiadau Effaith Diogelu Data a Rhestr Wirio Sgrinio Asesiadau Effaith Diogelu Data corfforaethol a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer yr ysgolion hefyd.

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gwneud darn o waith o gwmpas pa brosesau cyfredol o fewn yr ysgolion fydd angen Asesiadau Effaith Diogelu Data a bydd hyfforddiant ar gyfer staff perthnasol angen cael ei ychwanegu i'r Cynllun Hyfforddiant Diogelu Data fel bod yr ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau nhw.

## 12. Cytundebau gyda Phroseswyr

Nid oedd yn ymddangos fod gan yr ysgolion gytundebau unigol ar waith gyda phroseswyr data yn ystod y cyfnod ymweliadau ond nid oedd hyn wedi cael ei drafod mewn manylder. Roedd nifer uchel o'r ysgolion yn adrodd nad oedd ganddynt gytundebau fel ysgolion unigol a'u bod yn defnyddio proseswyr y mae'r ysgolion i gyd yn eu defnyddio.

Mae'r ysgolion yn ymwybodol bellach bod angen contract ysgrifenedig gyda phob darparwr trydydd parti sy'n prosesu data personol ar ran yr ysgol. Gall hyn fod yn gwmni sy'n prosesu data drwy raglenni addysgol ar-lein (e.e. drwy *ap*).

Mae'r ysgolion i gyd wedi cofrestru ar gyfer Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru *(WASPI)* yn y cyfnod rhwng Mai a Gorffennaf 2020. Mae Fframwaith *WASPI* yn darparu dull gwaith ymarferol i rannu gwybodaeth bersonol, darparu safonau cyffredin a thempledi ar gyfer datblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth (*ISPs)* a Chytundebau Datgelu Data *(DDAs).* Nod cyffredinol y fframwaith yw cynorthwyo darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau effeithiol wrth gydymffurfio â'u hymrwymiadau cyfreithiol- sef *GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018.*

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gwneud darn o waith yn edrych ar gytundebau lefel uchel a hefyd yn trafod gydag ysgolion unigol a oes angen cael cytundebau ar waith gyda phroseswyr data unigol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod tymor hydref 2020.

## 13. Systemau, Rhaglenni, *Apps* mae'r Ysgolion yn eu Defnyddio

Roedd y mwyafrif o'r ysgolion wedi darparu rhestr o holl systemau, rhaglenni ac *apps* mae'r ysgolion yn eu defnyddio sy'n casglu, rhannu a phrosesu data personol yn ystod y cyfnod ymweliadau.

Roedd y darn hwn o waith yn cael ei wneud yn wreiddiol er mwyn paratoi am bosibilrwydd o *'No Deal Brexit'* ac er mwyn gallu paratoi unrhyw gytundebau oedd angen cael eu newid. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn defnyddio'r wybodaeth hon i adolygu pa gytundebau sydd ar waith gyda phroseswyr data yn ystod tymor hydref 2020.

## 14. Proses Ymchwilio; Hysbysu a Chofnodi Tor-rheolau

Yn ystod yr ymweliadau, roedd yr ysgolion yn rhannu nad oedd llawer o ddigwyddiadau tor-rheolau wedi digwydd yn y gorffennol. O ganlyniad, nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ysgolion broses effeithiol i ddynodi, adrodd, rheoli, cofnodi a datrys unrhyw dor-rheol data personol ar waith. Mae'n hanfodol bod gan yr ysgolion i gyd broses ar waith ar gyfer hyn.

Mae'r ysgolion yn ymwybodol bellach bod angen adrodd unrhyw dor-rheolau i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion o fewn 72 awr o fod yn ymwybodol o ddigwyddiad o dor-rheolau yn unol â gofynion yr *ICO*. Maent hefyd yn ymwybodol mai'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion sy'n gyfrifol am benderfynu os oes angen adrodd i'r *ICO* ac os oes angen hysbysu unigolion neu beidio.

Gan nad oes polisïau na thempledi penodol ar gyfer ysgolion ar waith o ran delio ag achosion o dor-rheolau, mae'r Swyddog Diogelu Data wedi creu pecyn ar gyfer delio gyda rhain sy'n cynnwys:

- Polisi Tor-rheolau Data Ysgolion;
- Canllaw Tor-rheolau Data Ysgolion;
- Ffurflen Archwiliad Tor-rheolau Data Ysgolion;
- Adroddiad Tor-rheolau Data Ysgolion i'r Corff Llywodraethu Ysgol; a
- Log Tor-rheolau Data Ysgolion.

Mae'r pecyn yn y broses o gael ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn ei wirio. Bydd yr ysgolion angen mabwysiadu'r polisi a sicrhau bod proses gadarn ar waith er mwyn gallu delio ag unrhyw achosion o fewn yr amserlen statudol. Bydd angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ddarparu hyfforddiant i staff perthnasol er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth dda o'r broses o fewn yr ysgolion a'u bod yn gallu tystiolaethu eu bod yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau.

## 15. Proses Delio gyda Chais gan Wrthrych y Data

Yn ystod yr ymweliadau, roedd ysgolion yn rhannu nad oeddent yn dueddol o gael llawer o geisiadau gan wrthrych data. Roedd yr ysgolion uwchradd yn cael mwy o geisiadau na'r ysgolion cynradd.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan unigolion yr hawl i wneud cais i gael mynediad at eu gwybodaeth bersonol. Mae'n bwysig bod gan yr ysgolion broses effeithiol sy'n delio gydag unrhyw gais gan wrthrych y data sy'n cael ei dderbyn ac yn gallu chwilio am holl gofnodion sy'n cael eu cadw am yr unigolyn yn rhwydd. Mae angen ymateb i geisiadau o fewn un mis calendr hyd yn oed os yw'r cais yn dod i mewn ar ddiwrnod cyntaf o'r gwyliau haf. Mae hi'n bosib cael estyniad o ddau fis ychwanegol mewn achosion 'cymhleth'.

Gan nad oedd polisïau na thempledi penodol ar gyfer ysgolion ar waith o ran delio gyda cheisiadau gwrthrych data, mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi creu pecyn ar gyfer delio gyda rhain sy'n cynnwys:

- Polisi Delio gyda Chais gan Wrthrych Data Ysgolion;
- Ffurflen Gais Delio gyda Chais gan Wrthrych Data Ysgolion;
- Templed Llythyr Cydnabod Delio gyda Chais gan Wrthrych Data Ysgolion;
- Templed Llythyr Estyniad Delio gyda Cais gan Wrthrych Data Ysgolion; a
- Templed Llythyr Ymateb Delio gyda Chais gan Wrthrych Data Ysgolion.

Mae'n hanfodol bwysig bod gan yr ysgol ddealltwriaeth dda o ba ddata sy'n cael ei rannu a pha ddata nad yw'n briodol i'w rannu (e.e. data personol unigolyn arall; data trydydd parti a gwybodaeth sy'n cael ei eithrio). Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar gael i hwyluso a chefnogi ysgolion gyda pharatoi gwybodaeth i'w rhannu gydag unigolion o fewn yr amserlen statudol.

Mae'r pecyn yn y broses o gael ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn ei wirio. Bydd yr ysgolion angen mabwysiadu'r polisi a sicrhau bod proses gadarn ar waith er mwyn gallu delio ag unrhyw geisiadau o fewn yr amserlen statudol. Bydd angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ddarparu hyfforddiant i staff perthnasol er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth dda o'r broses o fewn yr ysgolion.

## 16. Cadw Data Personol yn Gywir a Chyfredol

Roedd gan y mwyafrif o'r ysgolion brosesau ar waith i gadw data personol yn gywir a chyfredol yn ystod y cyfnod ymweliadau. Mae'n hanfodol bod yr ysgolion yn cadw data personol yn gywir a chyfredol bob amser ac yn diweddaru gwybodaeth yn syth pan mae'n cael ei derbyn. Mae hyn yn lleihau'r risg o dor-rheolau. Mae gan unigolion yr hawl i ofyn i gywiro gwybodaeth sy'n anghywir hefyd ac mae hyn angen cael ei wneud yn amserol.

Yr unig beth sy'n gallu achosi oediad mewn diweddaru data yw bod rhai o'r ysgolion yn dibynnu ar y Swyddog SIMS i ddiweddaru'r wybodaeth gan nad oes ganddynt yr hawliau i wneud hyn o fewn yr ysgol. Mae hyn yn gallu arafu'r broses gan fod y Swyddogion SIMS yn gweinyddu ar ran nifer o ysgolion ac nid ydynt wedi eu lleoli yn yr ysgolion, felly mae oediad yn gallu digwydd oherwydd yr amgylchiadau.

Weithiau mae achosion lle mae'r un wybodaeth yn cael ei chadw mewn sawl lle gwahanol, felly mae diweddaru gwybodaeth yn gallu bod yn anodd os yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gan fwy nag un person mewn mwy nag un lle. Mae angen i'r ysgolion sicrhau nad ydynt yn dyblygu gwybodaeth yn ddiangen a bod gwybodaeth yn cael ei diweddaru ar pob fersiwn o'r wybodaeth.

Mae'r ysgolion i gyd angen sicrhau bod proses effeithiol ar waith sy'n sicrhau bod data personol yn parhau i fod yn gywir a chyfredol bob amser er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Mae hyn yn cael ei gynnwys yn y sesiynau hyfforddiant diogelu data cyffredinol.

## 17. Hawliau o dan GDPR

Yn ystod yr ymweliadau, nid oedd yr ysgolion yn gyffredinol yn llawn ymwybodol o'r hawliau gwahanol sydd gan unigolion o dan *GDPR.* Ni chafodd hyn ei drafod mewn manylder yn ystod yr ymweliadau ond mae hyn yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant cyffredinol diogelu data, ond mae angen gwneud mwy o waith penodol gyda staff perthnasol er mwy gwella eu dealltwriaeth o hawliau unigolion o gwmpas eu data personol, sef:



- Hawl i Gywiro ac i Ansawdd Data (Erthygl 16);
- Hawl i Ddilead (Erthygl 17);
- Hawl i Gyfyngu ar Brosesau (Erthygl 18);
- Hawl i Symud Data (Erthygl 20);
- Hawl i Wrthwynebu (Erthygl 21);
- Hawliau'n Gysylltiedig â Gwneud Penderfyniadau'n Awtomataidd yn Cynnwys Proffilio (Erthygl 22).

Mae mwy o fanylder am yr hawliau hyn o fewn y polisïau diogelu data.

## 18. Polisi Rheoli Cofnodion

Nid oedd gan yr ysgolion Bolisi Rheoli Cofnodion ar waith yn ystod y cyfnod ymweliadau ac ni drafodwyd hyn mewn manylder. Er mwyn sicrhau bod rheolaeth cofnodion effeithiol ar waith ac er mwyn sicrhau bod yr ysgolion yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, mae angen i'r ysgolion gael Polisi Rheoli Cofnodion.

Mae Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion wedi ei greu gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion. Mae'r polisi yn y broses o gael ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn ei wirio. Bydd yr ysgolion angen mabwysiadu'r polisi yn ffurfiol a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â hwn.

## 19. Cydsyniad- Ffurflenni Caniatâd a Chasglu Data

Roedd y mwyafrif o'r ysgolion yn defnyddio'r ffurflen ganiatâd gyfredol ar gyfer rhieni'n rhoi eu caniatâd i'r ysgol ddefnyddio lluniau a delweddau o'u plant ar gyfer eu cyhoeddi ar wefan, cyfryngau cymdeithasol a phapurau newydd. Roedd gan y mwyafrif o'r ysgolion cynradd systemau i gofnodi a rheoli caniatâd parhaus, ond mae hyn yn gallu bod yn heriol ar gyfer ysgolion uwchradd oherwydd y niferoedd o ddisgyblion a'r gallu i reoli a gweithredu â'r rhai nad ydynt yn rhoi caniatâd ar elfennau gwahanol.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn adolygu'r ffurflenni caniatâd cyfredol er mwyn sicrhau bod cysondeb ar draws yr ysgolion a bod defnydd o dechnoleg fwy newydd yn cael ei gynnwys hefyd. Mae'r elfen ganiatâd yn medru bod yn gymhleth ac mae camddealltwriaeth cyffredinol o gwmpas defnydd priodol o hyn. Mae angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wneud mwy o waith â'r ysgolion o gwmpas caniatâd a chreu polisi tynnu lluniau i bwrpas cyhoeddusrwydd ysgolion.

## 20. Rhannu Gwybodaeth yn Ddiogel

Roedd y mwyafrif o'r ysgolion yn defnyddio cyfrif e-bost swyddogol ysgol ar gyfer e-bostio yn ystod y cyfnod ymweliadau. Mae gan ysgolion gyfrifon Hwb Llywodraeth Cymru ac mae gan rai gyfrifon Cyngor Sir hefyd. Roedd y mwyafrif o'r llywodraethwyr yn defnyddio cyfeiriadau e-bost personol ac roedd gan rai ysgolion gyfrifon *g-mail.* Mae defnyddio cyfrifon e-bost personol ar gyfer rhannu data personol yn gallu bod yn risg.

Trafodwyd rhoi mesurau diogelu ar waith fel defnyddio llythrennau cyntaf enw yn unig o fewn e-byst wrth rannu manylion personol am ddisgyblion a defnyddio cyfrinair pan mae dogfennau sy'n cynnwys data personol yn cael eu rhannu dros e-bost. Mae risg o dor-rheolau data gyda gyrru e-byst i gyfeiriad anghywir ayyb. Mae'r camau diogelwch yn cael eu cynnwys yn y sesiynau hyfforddiant cyffredinol.

Mae angen i'r ysgolion sicrhau bod yr holl staff ddim ond yn defnyddio cyfrif e-bost swyddogol yr ysgol ac yn rhoi camau diogelu o gwmpas gyrru e-byst fel bod y risg o gwmpas tor-rheolau yn digwydd yn lleihau a bod data personol yn fwy diogel. Mae gwaith yn

cael ei wneud i greu cyfrifon Hwb ar gyfer holl staff ysgolion a hefyd ar gyfer llywodraethwyr. Mae hyn yn gam positif tuag at sicrhau mai cyfrifon swyddogol yn unig sy'n cael eu defnyddio ar gyfer rhannu data personol drwy'r ysgol.

Mae'r Swyddog Diogelu Data wedi creu Polisi E-bost Staff Ysgolion a Pholisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion ac mae'r polisïau hyn yn y broses o gael eu cymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn ei wirio. Bydd angen i'r ysgolion fabwysiadu'r polisïau a sicrhau eu bod yn defnyddio cyfrifon e-byst swyddogol yr ysgol ac yn rhoi mesurau diogelwch ar waith wrth yrru e-byst.

## 21. Cofrestr Cyfnodau Cadw Cofnodion

Roedd y ddogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion 2018 cyfredol wedi ei rhannu â'r ysgolion yn ystod haf 2018. Mae'r ddogfen wedi ei seilio ar gyfarwyddiadau cenedlaethol. Hon yw'r ddogfen gyfredol i'w defnyddio, ond nid oedd pob ysgol yn ymwybodol o hon yn ystod y cyfnod ymweliadau.

Mae Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu wedi cadarnhau i barhau i ddefnyddio'r fersiwn hwn ac i ddisgwyl nes bod gwaith rhanbarthol yn cael ei wneud i'w ddiweddaru. Mae'n bwysig cadw at y cyfnodau cadw gan fod cadw data personol yn hirach na sydd angen yn mynd yn erbyn egwyddorion deddfwriaeth diogelu data. Yn yr un modd, mae'n bwysig peidio cael gwared â data personol cyn i'r cyfnod cadw ddod i ben ychwaith gan fod yna bosibilrwydd y bydd angen yr wybodaeth ar gyfer ceisiadau gan wrthrych data neu ar gyfer ceisiadau rhyddid gwybodaeth.

Mae'r Cyfnodau Cadw Ysgolion wedi eu rhannu â'r ysgolion i'w defnyddio.

## 22. Prosesau a Threfniadau Dileu a Chael Gwared â Data Personol

Roedd gan y mwyafrif o'r ysgolion brosesau a threfniadau dileu a chael gwared â data personol effeithiol ar waith yn ystod y cyfnodau ymweliadau.

Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion ddulliau addas ar gyfer cael gwared â dogfennau papur (e.e. bin gwastraff cyfrinachol, peiriant rhwygo). Mae rhai o'r ysgolion angen ystyried cael peiriant rhwygo *'cross-cutting'* sy'n fwy diogel na pheiriant rhwygo safonol ac ystyried talu cwmni sy'n cael gwared â data personol yn ddiogel pan mae ganddynt waith clirio mawr.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi creu Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion sy'n cynnwys trefniadau dileu a chael gwared â data personol yn ddiogel. Mae'r polisi yn y broses o gael ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn ei wirio. Bydd yr ysgolion angen mabwysiadu'r polisi yn ffurfiol a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â hwn ac yn cadw at y Cyfnodau Cadw Ysgolion.

## 23. Storio Data Personol

Roedd yr ysgolion yn gallu rhestru lle mae data personol yn cael ei storio (gan gynnwys cofnodion papur ac electronig) a beth yw'r prosesau diogelwch sydd ar waith yn ystod y cyfnod ymweliadau.

Cododd rhai o'r ysgolion bod problemau o gwmpas storio gwybodaeth bersonol yn enwedig yn yr ysgolion sydd mewn hen adeiladau. Nid oes digon o le mewn rhai adeiladau i storio gwybodaeth yn ddiogel. Hefyd, mae rhai ysgolion yn mynd i'w chael yn anodd o ran gorfod gwario ar brynu cypyrddau neu ddodrefn sy'n cloi er mwyn diogelu data personol sy'n cael ei gadw ar silffoedd agored o fewn swyddfeydd lle mae'r cyhoedd yn cael mynediad atynt fel sy'n digwydd mewn rhai ysgolion ar hyn o bryd.

Mae gwaith clirio dogfennau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad cadw angen cymryd lle mewn nifer o'r ysgolion. Mae risg bod gwybodaeth bersonol yn dal yn cael ei chadw mewn rhai ysgolion pan mae'r cyfnod amser cyfreithiol wedi mynd heibio, sy'n torri rheolau diogelu data.

Mae gwaith i'w wneud gyda rhai o'r ysgolion i wneud yn siŵr fod ganddynt broses ar waith o ddim ond rhoi mynediad at ddata personol i swyddogion priodol sydd angen cael mynediad at y wybodaeth yn unig. Ar hyn o bryd, nid oes gan bob ysgol drefn lle mae cyfyngiad mynediad at wybodaeth i swyddogion priodol yn unig, sy'n gallu bod yn risg. Mae hyn yn fwy amlwg gyda chofnodion papur na chofnodion electronig- mae hyn oherwydd diffyg lle i storio gwybodaeth yn effeithiol o fewn adeiladau.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi creu Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion ac mae'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion hefyd yn delio gyda hyn. Mae'r polisïau yn y broses o gael eu cymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn ei wirio. Bydd angen i'r ysgolion fabwysiadu'r polisïau yn ffurfiol a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â nhw a fod ganddynt brosesau priodol ar waith.

## 24. Hyfforddiant Diogelu Data

Wrth drafod hyfforddiant â'r ysgolion yn ystod yr ymweliadau, mae'r rhan fwyaf o Benaethiaid ysgolion uwchradd a chynradd wedi derbyn hyfforddiant cychwynnol *GDPR* ym mis Mai 2018. Mae rhai o staff ysgolion uwchradd wedi derbyn hyfforddiant gan gwmni cyfreithiol *Geldards* yng Ngorffennaf 2019 hefyd. Noder nad yw rhai o'r Penaethiaid wedi derbyn unrhyw hyfforddiant diogelu data hyd at y cyfnod ymweliadau.

Roedd holl staff yr ysgolion i fod wedi cwblhau'r modiwl *GDPR* mandadol ar-lein ar y Porth E-ddysgu yn ystod Mehefin / Gorffennaf 2018. Roedd yn ymddangos o restr Adnoddau Dynol bod nifer fawr o staff yr ysgolion heb gwblhau'r modiwl hwn ac felly mae'r Swyddog Diogelu Data yn gofyn bod pawb sydd heb ei gwblhau yn gwneud mor fuan â phosib gan fod hwn yn hyfforddiant y mae'n rhaid i bawb yn y Cyngor ei wneud.

Roedd anghenion hyfforddiant diogelu data wedi cael eu hadnabod yn ystod yr ymweliadau hefyd. Roedd yn amlwg bod rhan fwyaf o staff heb dderbyn hyfforddiant ffurfiol ymhellach i'r modiwl ar-lein a bod angen i'r staff gael gwell dealltwriaeth o *GDPR* a diogelu data yn gyffredinol.

O ganlyniad i hyn, mae'r Swyddog Diogelu Data wedi cynnig rhoi sesiwn hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar faterion ymarferol ac arfer dda fydd o ddefnydd i weithwyr yn eu gwaith dydd-i-ddydd ac yn rhoi arweiniad iddynt ynglŷn â beth yw eu cyfrifoldebau dan *GDPR.* Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion wedi dangos diddordeb mewn cynnal sesiwn, rhai wedi gofyn am sesiwn unigol i'r ysgol a rhai eraill eisiau ei wneud fel dalgylch. Rhwng Ionawr 2020 a Chwefror 2020 mae 14 o ysgolion wedi derbyn sesiwn hyfforddiant cyffredinol. Roedd 4 o'r rhain yn sesiynau ar gyfer ysgolion unigol a'r gweddill yn rhan o'r 2 sesiwn dalgylchol a drefnwyd. Roedd sesiynau eraill wedi eu trefnu rhwng Ionawr 2020 a Mehefin 2020 ond cafodd y rhain eu canslo oherwydd salwch, tywydd neu COVID-19.

Roedd sesiynau hyfforddiant *GDPR* ar gyfer llywodraethwyr wedi cael eu cynnwys o fewn yr amserlen hyfforddiant cyffredinol ar gyfer llywodraethwyr am y flwyddyn ysgol. Mae gan lywodraethwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â *GDPR* ac mae'n syniad da cael Pencampwr *GDPR* ar fwrdd y llywodraethwyr. Mae hyn yn golygu bod llywodraethwyr angen dealltwriaeth o *GDPR* a'u cyfrifoldebau, a beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt yn eu rôl. Dim ond un sesiwn hyfforddiant gyda llywodraethwyr a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ysgol (ym mis Tachwedd 2019) yn lle pedwar oherwydd salwch a COVID-19, gyda dim ond dau lywodraethwr wedi derbyn yr hyfforddiant hyd yma.

Mae Cynllun Hyfforddiant Diogelu Data Ysgolion ar waith. Effeithir y cynllun gan COVID-19, felly bydd yn cael ei ddiweddaru i gynnwys sesiynau cyffredinol gyda staff ysgolion oedd fod i ddigwydd yn ogystal â sesiynau hyfforddiant llywodraethwyr. Bydd y cynllun newydd hefyd yn cynnwys sesiynau ar themâu penodol diogelu data ar gyfer staff perthnasol (e.e. rheoli risgiau gwybodaeth, rheoli cofnodion, delio gydag achosion tor-rheolau, delio gyda cheisiadau gwrthrych data a rheoli risgiau). Bydd y cynllun wedi ei seilio ar sesiynau ar gyfer cyfnod 12 mis. Bydd y sesiynau hyfforddiant angen bod ar gael ar-lein a thrwy dechnoleg yn hytrach na dim ond sesiynau wyneb-i-wyneb.

## 25. Canlyniadau

- Yn gyffredinol, mae ymarferion rheoli gwybodaeth dydd-i-ddydd o fewn yr ysgolion yn dderbyniol ond nid oes gan y mwyafrif o'r ysgolion bolisïau a dogfennau allweddol cyfredol wedi eu mabwysiadu ac ar waith gan nad oedd nifer o'r polisïau a'r dogfennau hyn wedi cael eu creu ar gyfer yr ysgolion cyn i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion gael ei phenodi. Mae'n hanfodol bod y polisïau a'r dogfennau craidd cyfredol yn cael eu mabwysiadu mor fuan â phosib. Mae COVID-19 wedi cael effaith ar amserlen cymeradwyo'r polisïau a'r dogfennau allweddol, ond mae angen edrych i gael y rhain ar waith, mewn partneriaeth â'r ysgolion, yn ystod tymor yr hydref.
- Mae angen sicrhau bod prosesau diogelu data penodol, effeithiol a chadarn ar waith. Mae hyn yn cyd-fynd â'r polisïau a'r dogfennau allweddol. Ar hyn o bryd, nid oes prosesau cadarn ar waith o ran delio ag achosion o dor-rheolau; delio gyda cheisiadau gan wrthrych data; cyfyngu mynediad at wybodaeth bersonol; cael gwared â data personol sydd wedi mynd heibio'i gyfnod cadw; rheoli risgiau diogelu data a chreu Asesiadau Effaith Diogelu Data ar gyfer prosesau sy'n risg uchel.
- Mae angen sicrhau bod gan ysgolion *ROPA* (gan gynnwys mapiau llif data) a Chofrestr Asedau Gwybodaeth ar waith sy'n cael eu cadw'n gyfredol.
- Mae angen sicrhau fod gan yr ysgolion Hysbysiadau Preifatrwydd addas a chyfredol a'u bod yn cael eu rhannu ac ar gael i unigolion a bod ffurflenni casglu data a ffurflenni caniatâd yn cynnwys crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd.
- Mae angen sicrhau bod cytundebau priodol ar waith gyda phroseswyr data ar lefel uchel a hefyd gydag ysgolion unigol. Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion angen gweithio â'r ysgolion i sicrhau bod y rhain ar waith.
- Mae angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wneud mwy o waith gydag ysgolion o gwmpas y defnydd o ganiatâd gan gynnwys adolygu'r ffurflenni cyfredol.
- Mae angen diweddaru'r cynllun hyfforddiant, ac mae angen i ysgolion sicrhau bod eu holl staff wedi cwblhau'r modiwl ar-lein.

- Mae gwaith angen ei wneud i sicrhau bod holl gyrff llywodraethu ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data a sut i sicrhau bod yr ysgolion yn cydymffurfio. Bydd angen i gyrff llywodraethu ysgolion fabwysiadu'r polisïau diogelu data ar ran yr ysgolion a gofyn i'r ysgolion dystiolaethu eu cydymffurfiaeth â'r rhain.

**Mae'r broses o gychwyn cael polisïau, prosesau ac ymarferion ar waith er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wedi cychwyn o fewn yr ysgolion, ond mae mwy o waith i'w wneud er mwyn cael pob ysgol ar yr un lefel ac yn gweithredu'n gyson ar draws yr ynys.**

## 26. Camau Nesaf

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi adnabod pa ddarnau gwaith sydd angen eu gwneud gyda'r ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn gyda deddfwriaeth diogelu data ac yn cyflawni beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt fel y Rheolydd Data, sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau eu bod yn prosesu data personol yn gyfreithlon. Mae'n hanfodol bod yr ysgolion yn deall eu cyfrifoldebau a'u goblygiadau fel y Rheolydd Data a'r disgwyliadau cyfreithiol sy'n dod o ganlyniad. Mae'r Swyddog Diogelu Data ar gael i gynorthwyo ac i hwyluso'r broses hon ac i roi cyngor a chymorth i ysgolion.

Dyma'r camau nesaf a gynhigir er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion:

- I'r polisïau, canllawiau, dogfennau allweddol a thempledi terfynol gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu, mewn partneriaeth gyda'r ysgolion, fel bod yr ysgolion yn gallu eu mabwysiadu yn ffurfiol yn ystod tymor yr hydref 2020. Bydd yr holl bolisïau a dogfennau ar gael ar yr adran *GDPR* o Addysg Môn fel bod popeth o ran dogfennau diogelu data cyfredol ar gael i'r ysgolion mewn un lle. Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi creu dogfen 'Fframwaith Adolygu Polisïau, Canllawiau a Dogfennau Allweddol Diogelu Data Ysgolion Môn' (ATODIAD C) sy'n rhoi diweddariad ar statws y gwahanol ddogfennau sydd angen eu mabwysiadu gan yr ysgolion (hyd at Orffennaf 2020). **I'r ysgolion sicrhau bod y polisïau hyn wedi eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y corff llywodraethu a'u bod yn gallu tystiolaethu eu bod yn cydymffurfio â'r polisïau.**
- I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wneud gwaith â'r ysgolion o gael *ROPA* (gan gynnwys mapiau llif data) a Rhestr Asedau Gwybodaeth ar waith. I gwblhau Rhestr o Asedau Gwybodaeth gydag ysgol uwchradd, ac yna rhannu templed cynradd ac uwchradd â'r ysgolion er mwyn iddynt ei addasu ar gyfer eu hysgol unigol nhw.

- I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion weithio â'r ysgolion ar fabwysiadu polisïau a chreu prosesau i ddelio'n effeithiol gydag achosion o dor-rheolau a cheisiadau gan wrthrych data. I ddarparu hyfforddiant gyda staff perthnasol fel bod yr ysgolion yn gallu delio'n effeithiol gydag achosion o dor-rheolau.
- I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion gwblhau'r gwaith o greu Hysbysiadau Preifatrwydd a'u rhannu â'r ysgolion i'w haddasu a'u mhabwysiadu. Hefyd, i sicrhau bod ffurflenni casglu data a ffurflenni caniatâd yn cynnwys crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd.
- I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion weithio â'r ysgolion i sicrhau bod cytundebau priodol ar waith gyda phroseswyr data ar lefel uchel a hefyd gydag ysgolion unigol. I gychwyn ar y gwaith hwn yn ystod tymor yr hydref.
- I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wneud darn o waith a sesiynau hyfforddiant â'r ysgolion ar reoli risgiau a sut i gwblhau Asesiadau Effaith Diogelu Data. I adolygu a oes Asesiadau Effaith Diogelu Data wedi eu gwneud yn hanesyddol ar gyfer prosesu data sy'n gallu bod yn risg uchel ac i weithio â'r ysgolion i greu unrhyw Asesiadau Effaith Diogelu Data sydd eu hangen. I gychwyn ar y gwaith hwn yn ystod tymor yr hydref.
- I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion adolygu'r ffurflenni caniatâd cyfredol a gwneud mwy o waith gydag ysgolion o gwmpas caniatâd a chreu polisi tynnu lluniau i bwrpas cyhoeddusrwydd ysgolion.
- I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion weithio â'r ysgolion i sicrhau fod ganddynt brosesau o gwmpas pwy sy'n cael mynediad at wybodaeth bersonol benodol a bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel o fewn yr ysgolion. Hefyd, i wneud gwaith gyda rhai ysgolion o ran cael gwared â hen ddogfennau sydd wedi mynd heibio'u cyfnod cadw.
- I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ail-drefnu sesiynau hyfforddiant diogelu data llywodraethwyr a gorffen creu Canllaw Diogelu Data Corff Llywodraethu Ysgolion. I'r cyrff llywodraethu sicrhau bod aelodau'n cwblhau'r hyfforddiant ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data.
- I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ddiweddaru'r rhaglen hyfforddiant diogelu data cyffredinol ar gyfer staff ysgolion a llywodraethwyr. Hefyd, i gynnwys hyfforddiant diogelu data mwy penodol ar gyfer staff perthnasol am y 12 mis nesaf e.e. rhoi hyfforddiant penodol ar themâu fel rheoli risgiau gwybodaeth, rheoli cofnodion a rheoli risgiau. I edrych ar roi hyfforddiant drwy dechnoleg fel *Microsoft Teams* neu *Zoom* hefyd yn ogystal â sesiynau o fewn yr ysgolion. I'r ysgolion sicrhau bod staff perthnasol yn cwblhau'r hyfforddiant fel eu bod yn deall eu cyfrifoldebau diogelu data.
- I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion baratoi adroddiad diogelu data blynyddol o hyn allan. Mae Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu angen cadarnhau beth fydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ond bydd hyn yn debygol o fod wedi ei seilio ar y nifer o achosion tor-rheolau, nifer o geisiadau gan wrthrych data, nifer o gwynion ynglŷn â diogelu data, gwybodaeth am bolisïau, cynllun am y flwyddyn nesaf, manylion hyfforddiant ac argymhellion. Bydd hefyd wedi ei seilio ar

ddarnau gwaith fydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn eu gwneud o ran monitro cydymffurfiaeth ysgolion gyda deddfwriaeth fydd yn dibynnu ar edrych am dystiolaeth o gydymffurfio gan yr ysgolion.

ATODIAD A

## SCHOOLS INFORMATION GOVERNANCE HEALTH CHECK FOLLOW UP

## ACTION PLAN

| Ref | Risk / Issue | Risk Rating | Management Response | Follow Up Results | Revised Risk Rating | Status / Revised Completion Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | A Schools DPO should be appointed at the earliest available opportunity – this role will provide the vital education support and guidance to the schools to address any current gaps in compliance to the new regulations<br>Target date: 01/09/19 | **H** | N/A | A Schools DPO commenced in post on the 19th August 2019. | | Implemented August 2019. |
| 2 | If consent is deemed to be required there are a variety of self-sourced or adopted forms currently in use. Consider a single form, centrally owned with version control and electronically available. The DPO should also look to clarify when / why consent is required and in what circumstances. | **H** | N/A | First Follow Up (October 2019)<br>Work in progress. The Schools DPO is visiting each individual school to gain a better understanding of what forms are currently in use.<br><br>Following the review, she will create a uniform library of forms and make them available centrally by 17.07.20.<br><br>Second Follow Up (April 2020)<br>Still work in progress and on track to be completed by 17.07.20. | **C3** | June 2020<br>School visits completed. SDPO visited every primary and secondary school during October 2019 to February 2020. Better understanding gained of what forms are currently in use.<br><br>A uniform library of forms has been created. Forms will be approved by the Learning Senior Management Team on 20.07.20. |

| Ref | Risk / Issue | Risk Rating | Management Response | Follow Up Results | Revised Risk Rating | Status / Revised Completion Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Forms will not be available centrally by 17.07.20, but will be ready for September 2020. Approval of forms has been delayed due to COVID-19. |
| 3 | Consider extending Data Governance / GDPR training to School Governors. | **L** | N/A | First Follow Up (October 2019)<br>Work in progress. The governors' training programme includes specific training arranged for governors: 'Governing Body responsibilities to ensure compliance with GDPR'.<br><br>The Learning Service has scheduled training sessions for governors to complete by the end of the current school year (July 2020).<br><br>Second Follow Up (April 2020)<br>This is now delayed due to the Coronavirus. Session arranged for March was cancelled. Another session is due to take place in June, but will see if this can go ahead nearer the time. | **C4** | June 2020<br>The governors' training programme has been delayed due to COVID-19.<br><br>Sessions arranged for March and June 2020 were cancelled as training sessions could not go ahead.<br><br>To look at other ways of delivering the training e.g. via Zoom for the new school year (by January 2021). |
| 4 | Training – mix of approaches adopted across all schools visited. Combined with the responses there would appear to be a training refresh need. This could be done using existing training material with the situational case studies to support | **M** | N/A | First Follow Up (October 2019)<br>Work in progress. The Schools DPO is assessing training needs for all school staff during visits to each individual school. | **C3** | June 2020<br>Training Plan in place since 24.01.20. Several training sessions have been held, but some have been cancelled due to |

Tudalen 46

| Ref | Risk / Issue | Risk Rating | Management Response | Follow Up Results | Revised Risk Rating | Status / Revised Completion Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | more granular understanding especially around social media and CCTV policies. | | | A training plan will be in place by 24 January 2020 that will schedule training sessions for the current school year.<br><br>Second Follow Up (April 2020)<br>Training Plan in place since 24.01.20. Several training sessions have been held, but some have been cancelled due to SDPO illness and Coronavirus. These will need to be rescheduled. It may be impossible to complete all remaining training sessions before 17.07.20 depending on the Coronavirus situation. | | SDPO illness and Coronavirus.<br><br>Training sessions will need to be rescheduled. It is impossible to complete all remaining training sessions before 17.07.20 due to COVID-19.<br><br>To look at other ways of delivering the training e.g. via Zoom/Microsoft Teams for the new school year for those training sessions that have not been held (by January 2021). |
| 5 | The survey results ranged from annually to 3 years suggest (once appointed) the Schools DPO sets a standard policy review timetable / framework for review of data protection / data governance policies for increased clarity. | **M** | N/A | First Follow Up (October 2019)<br>Work in progress. Following gaining a better understanding of current data protection / data governance policies during the visits to each school, the Schools DPO will review all policies during Spring term 2020.<br><br>The Schools DPO will establish a Standard Data Protection Policy Review Framework by 31 January 2020.<br><br>Second Follow Up (April 2020) | **C4** | June 2020<br>School visits completed and a better understanding gained of what current data protection/data governance policies are in place.<br><br>SDPO undertook a review of all policies following the visits and has created a |

| Ref | Risk / Issue | Risk Rating | Management Response | Follow Up Results | Revised Risk Rating | Status / Revised Completion Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Standard Data Protection Policy Review Framework in place since 31.01.20.<br><br>Schools Data Protection Policy in the process of being approved.<br><br>Other policies in the process of being created. | | Standard Data Protection Policy Review Framework which has been in place since 31.01.20. Dates of policy reviews have had to be pushed back due to COVID-19. |
| 6 | Scenario 1<br>1. Reviewing consent form to ensure request for consent is lawful and needed.<br>2. Retaining consent forms in line with retention periods as these forms would provide vital evidence in the event of an accident or other such incident. | **M** | N/A | First Follow Up (October 2019)<br>Work in progress (as in 2 above). The Schools DPO will review consent forms during January 2020. She will create a uniform library of forms and make available centrally by 17.07.20.<br><br>Second Follow Up (April 2020)<br>Consent forms have been reviewed. Work is still in progress creating a uniform library of forms- still on track to be completed by 17.07.20. | **C3** | June 2020<br>Consent forms have been reviewed.<br><br>A uniform library of forms has been created. Forms will be approved by the Learning Senior Management Team on 20.07.20.<br><br>Forms will not be available centrally by 17.07.20, but will be ready for September 2020. Approval of forms has been delayed due to COVID-19. |
| 7 | Scenario 2<br>1. Reviewing CCTV usage policy and issuing standard | **M** | N/A | First Follow Up (October 2019)<br>Work in progress. The Schools DPO will review findings in February 2020 following her visits to | **C3** | June 2020<br>Findings of CCTV use has been gathered and included in the |

| Ref | Risk / Issue | Risk Rating | Management Response | Follow Up Results | Revised Risk Rating | Status / Revised Completion Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | wording as to who can access / view images.<br>2. Ensuring a standard CCTV policy is in place for all schools (with CCTV in operation).<br>3. CCTV signs to be visibly displayed in all schools with CCTV systems. | | | the schools, and will create a standard CCTV Policy by 17/07/20.<br><br>Second Follow Up (April 2020)<br>Findings of CCTV use has been gathered and included in the reports following school visits (completed in February 2020).<br><br>Work is still in progress in creating a standard CCTV Policy- still on track to be completed by 17.07.20. | | reports following school visits (completed in February 2020).<br><br>A standard CCTV Policy has been created and will be approved by the Learning Senior Management Team on 20.07.20.<br><br>The policy will not be available by 17.07.20, but will be ready for September 2020. Approval of policies has been delayed due to COVID-19. |
| 8 | Scenario 3<br>1. Further training to be conducted or provided on social media / parents & pupils responsibilities and potential consequences – legal / reputational.<br>2. All schools to have a mandatory social media policy in place. Closed Facebook groups are in use and exist as a form of updating parents. | **M** | N/A | First Follow Up (October 2019)<br>Work in progress. The Schools DPO will create a standard Social Media Policy and arrange training around social media by 17.07.20.<br><br>Second Follow Up (April 2020)<br>Still work in progress and on track to be completed by 17.07.20. | **C3** | June 2020<br>A standard Social Media Policy has been created and will be approved by the Learning Senior Management Team on 20.07.20.<br><br>The policy will not be available by 17.07.20, but will be ready for September 2020. Approval of policies |

| Ref | Risk / Issue | Risk Rating | Management Response | Follow Up Results | Revised Risk Rating | Status / Revised Completion Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3. All policies to have a review frequency in place – ranged from annually to 3 years. | | | | | has been delayed due to COVID-19.<br><br>Will look at other ways of delivering the training around social media e.g. via Zoom/Microsoft Teams for the new school year (by January 2021). |
| 9 | Scenario 4<br>1. For schools with CCTV in operation DPIA to be conducted.<br>2. All schools to display CCTV signs / usage.<br>3. CCTV policies to be updated and reflective of responsibilities and appropriate usage.<br>4. Where there is no CCTV consider widening installations to encompass all schools estates for consistency in usage, application and policy – linked to safeguarding. | **M** | N/A | First Follow Up (October 2019)<br>Work in progress. The Schools DPO will support schools to complete Data Protection Impact Assessment (DPIA) and create a standard CCTV Policy by 17/07/20.<br><br>Second Follow Up (April 2020)<br>Still work in progress and on track to be completed by 17.07.20. | **C3** | June 2020<br>A standard CCTV Policy has been created and will be approved by the Learning Senior Management Team on 20.07.20.<br><br>A Data Protection Impact Assessment (DPIA) Policy has been created and will be approved by the Learning Senior Management Team on 20.07.20.<br><br>SDPO will need to arrange to support schools to complete DPIA during the new school year. This will |

| Ref | Risk / Issue | Risk Rating | Management Response | Follow Up Results | Revised Risk Rating | Status / Revised Completion Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | not be completed by 17.07.20.<br><br>The policies will not be available by 17.07.20, but will be ready for September 2020. Approval of policies has been delayed due to COVID-19. |
| 10 | Scenario 5<br>1. Advice given to schools on what can / cannot be viewed including advice on redaction of information.<br>2. All schools to adopt a uniform response timeframe in line with GDPR timeframes / guidance.<br>3. Check if Standard Access Request form exists – potential for e-form.<br>4. Ensure schools are aware that incorrect information can be corrected if proved to be inaccurate. | **M** | N/A | First Follow Up (October 2019)<br>Work in progress. The Schools DPO will create guidance and a standard form around Data Subject Access Requests for schools to use following visiting schools. She will also create guidance around correcting inaccurate information by 21.02.20.<br><br>Second Follow Up (April 2020)<br>Delayed. Work in progress- policy, guidance and standard form in the process of being created. Will be ready mid-April 2020. | **C3** | June 2020<br>Data Subject Access Request Policy, guidance and standard form created and correcting accurate information guidance created and will be approved by the Learning Senior Management Team on 20.07.20.<br><br>Policies, guidance and documents were not available for 21.02.20, but will be ready for September 2020. |
| 11 | Scenario 6<br>1. All schools to review email policy and include a case study or the correct answer to this scenario as standard all | **M** | N/A | First Follow Up (October 2019)<br>Work in progress. The Schools DPO will create a standard E-mail Policy and guidance around data breaches by 21/02/20. | **C3** | June 2020<br>A standard E-mail Policy and guidance around Data Breaches have been created and |

| Ref | Risk / Issue | Risk Rating | Management Response | Follow Up Results | Revised Risk Rating | Status / Revised Completion Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | staff should be made aware of the escalation routes and breach recording timeframes.<br>2. Ensure schools record corrective actions and evidence this should this event occur. | | | Second Follow Up (April 2020)<br>Delayed. Work in progress- E-mail Policy and guidance around data breaches are in the process of being created. Will be ready mid-April 2020. | | will be approved by the Learning Senior Management Team on 20.07.20.<br><br>Policy and guidance were not available by 21.02.20, but will be ready for September 2020. |

ATODIAD B

## Ffurflen Gwerthuso Prosesau ac Ymarferion Diogelu Data Ysgolion

## Ymweliad Cyntaf gan Swyddog Diogelu Data Ysgolion

| **Manylion Ymweliad** | |
|---|---|
| **Ysgol** | |
| **Dyddiad** | |
| **Pwy wedi ei gyfarfod a rôl** | |
| **Enw a manylion person cyfrifol am diogelu data yn yr ysgol** | |

| **1. Cofrestriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth *(ICO)*** | | |
|---|---|---|
| **1.1.** | **Mae'r ysgol wedi ei chofrestru â'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth- do/naddo** | |
| **1.2.** | **Rhif cofrestriad yr ysgol** | |
| **1.3.** | **Diwrnod adnewyddu cofrestriad** | |
| **1.4.** | **Manylion Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar y cofrestriad-ydi/nac ydi** | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.5.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| | | |
|---|---|---|
| **2. Swyddog Diogelu Data Ysgolion** | | |
| **2.1.** | **Mae gwybodaeth cyswllt y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar gwefan yr ysgol- ydi/nac ydi** | |
| **2.2.** | **Mae'r staff priodol yn yr ysgol yn ymwybodol bod y Swyddog Diogelu Data ar waith- ydyn/nac ydyn** | |
| **2.3.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| | | |
|---|---|---|
| **3. *Records of Processing Activities (ROPA)*- Erthygl 30 o GDPR** | | |
| **3.1.** | **Mae'r ysgol yn ymwybodol bod angen Records of Processing Activities ar waith ac gyda un ar waith- ydi/ nac ydi** | |
| **3.2.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| | | |
|---|---|---|
| **4. Rhestr o Asedau Gwybodaeth *(Information Asset Register)*** | | |
| **4.1.** | **Mae'r ysgol wedi cwblhau Rhestr o Asedau Gwybodaeth sy'n dogfennu pa** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **ddata personol a gedwir ganddi, o ble y daeth, gyda phwy mae'n ei rannu a'r hyn mae'n ei wneud gydag o- do/naddo.** | |
| **4.2.** | **Mae'r ysgol gyda map llif data- oes/nac oes.** | |
| **4.3.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **Hysbysiad Preifatrwydd (*Privacy Notice)* – Erthygl 14 GDPR** | |
| **5.1.** | **Mae'r ysgol gyda Hysbysiad Preifatrwydd cyfredol sy'n egluro'r pwrpas a'r sail cyfreithiol am brosesu; sy'n nodi unrhyw trydydd barti mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth gyda ac unrhyw brosesydd allanol - ydi/ nac ydi** | |
| **5.2.** | **Mae gan yr ysgol Hysbysiad Preifatrwydd yn benodol ar gyfer plant os mae'r ysgol yn cynnig gwasanaethau ar-lein yn uniongyrchol i blant- oes/nac oes** | |
| **5.3.** | **Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan yr ysgol- ydi/nac ydi** | |
| **5.4.** | **Mae yna broses ar waith er mwyn rhannu'r Hysbysiad Preifatrwydd os mae cais ar lafar yn cael ei wneud- oes/nac oes** | |

| | | |
|---|---|---|
| 5.5. | Mae'r ysgol wedi ychwanegu crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd i ffurflenni casglu data sy'n cael ei yrru at rieni/disgyblion- do/naddo | |
| 5.6. | Unrhyw weithredoedd i'w cymryd | |

| 6. Polisi Diogelu Data- Erthygl 24(1) o GDPR | | |
|---|---|---|
| 6.1. | Mae'r ysgol wedi mabwysiadu ac yn dilyn Polisi Diogelu Data addas- do/naddo | |
| 6.2. | Mae'r ysgol yn monitro ei chydymffurfiaeth â'r Polisi Diogelu Data- ydi/nac ydi | |
| 6.3. | Mae'r Polisi Diogelu Data ar gael ar wefan yr ysgol- ydi/nac ydi | |
| 6.4. | Mae yna broses ar waith er mwyn rhannu'r Polisi Diogelu Data os mae cais ar lafar yn cael ei wneud- oes/nac oes | |
| 6.5. | Oes gan yr ysgol unrhyw bolisïau eraill yn ymwneud â diogelu data- oes/nac oes | |
| 6.6. | Unrhyw weithredoedd i'w cymryd | |

| 7. Polisi CCTV- Erthygl 29 o Protection of Freedom Act 2012 |
|---|

| | | |
|---|---|---|
| 7.1. | **Mae gan yr ysgol Bolisi CCTV ar waith- oes/nac oes** | |
| 7.2. | **Mae'r Polisi CCTV ar wefan yr ysgol- ydi/nac ydi** | |
| 7.3. | **Mae yna broses ar waith er mwyn rhannu'r Polisi CCTV os mae cais ar lafar yn cael ei wneud- oes/nac oes** | |
| 7.4. | **Mae gan yr ysgol arwyddion o fewn ardaloedd sy'n cael eu monitro gan CCTV ar draws yr ysgol sy'n hysbysebu bod yna CCTV yn weithredol- oes/nac oes** | |
| 7.5. | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| **8. Rheoli Risgiau Gwybodaeth** | | |
|---|---|---|
| 8.1. | **Mae gan yr ysgol broses ar waith sy'n rheoli risgiau gwybodaeth- oes/nac oes** | |
| 8.2. | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| **9. Asesiadau Effaith Diogelu Data *(Data Protection Impact Assessment)*- Erthygl 35 o GDPR** | | |
|---|---|---|
| 9.1. | **Mae'r ysgol yn ymwybodol pryd y mae'n rhaid iddi gynnal Asesiad** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Effaith Diogelu Data (technoleg newydd- systemau/rhaglenni/apps gan unrhyw drydydd parti)- ydi/nac ydi** | |
| **9.2.** | **Mae'r ysgol yn ymwybodol bod y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gallu helpu i gwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data- ydi/nac ydi** | |
| **9.3.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| | | |
|---|---|---|
| **10. Cytundebau gyda Proseswyr- (*Data Processing Agreements)*- Erthygl 28(3) o GDPR** | | |
| **10.1.** | **Mae'r ysgol yn ymwybodol bod angen contract ysgrifenedig ac mae ganddi gontract ysgrifenedig ar waith gyda pob darparwr trydydd parti sy'n prosesu data personol ar ran yr ysgol- oes/nac oes** | |
| **10.2.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| | | |
|---|---|---|
| **11. Systemau, Rhaglenni, Apps mae'r Ysgol yn eu Defnyddio** | | |
| **11.1.** | **Mae'r ysgol wedi darparu rhestr o holl systemau, rhaglenni ac apps mae'r ysgol yn eu defnyddio sy'n casglu, rhannu a prosesu data personol- do/naddo** | |

| | | |
|---|---|---|
| **11.2.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| **12. Proses Ymchwilio; Hysbysu a Chofnodi Tor-rheolau *(Data Breach)*- Datganiad 87; Erthygl 33(1) ac Erthygl 33(5) o GDPR** | | |
|---|---|---|
| **12.1.** | **Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol i ddynodi, adrodd, rheoli, cofnodi a datrys unrhyw dorri rheolau data personol- oes/nac oes** | |
| **12.2.** | **Mae'r ysgol yn ymwybodol bod angen adrodd unrhyw dor-rheolau i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion- ydi/nac ydi** | |
| **12.3.** | **Mae gan yr ysgol log ar gyfer achosion tor-rheolau a ffurflenni adroddiadau digwyddiad ar ffeil- oes/nac oes** | |
| **12.4.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| **13. Proses Delio gyda Cais gan Wrthrych y Data *(Data Subject Access Request)*- Erthygl 15 o GDPR** | | |
|---|---|---|
| **13.1.** | **Mae gan yr ysgol broses effeithiol sy'n delio gyda unrhyw gais gan wrthrych y data sy'n cael ei dderbyn ac yn gallu chwilio am holl gofnodion sy'n cael eu dal am yr unigolyn yn rhwydd- oes/nac oes** | |

| | | |
|---|---|---|
| 13.2. | Mae'r ysgol yn ymwybodol bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn disgwyl i ysgolion ymateb i geisiadau gan wrthrych y data o fewn mis hyd yn oed os mae'r cais yn cael ei wneud yn ystod gwyliau'r ysgol- ydi/nac ydi | |
| 13.3. | Unrhyw weithredoedd i'w cymryd | |

| 14. Cadw Data Personol yn Gywir a Chyfredol | | |
|---|---|---|
| 14.1. | Mae gan yr ysgol brosesau i sicrhau bod y data personol y mae'n ei gadw yn parhau i fod yn gywir a chyfredol- oes/nac oes | |
| 14.2. | Unrhyw weithredoedd i'w cymryd | |

| 15. Hawliau o dan GDPR | | |
|---|---|---|
| 15.1. | Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r hawliau gwahanol sydd gan unigolion o dan GDPR ac yn ymwybodol bod rhai o'r rhain ddim yn briodol gyda ysgol oherwydd bod rhai tasgau a gwybodaeth angen cael ei gadw yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | **statudol ond efallai bydd ceisiadau yn cael eu gwneud:**<br><br>• **Hawl i Gywiro ac i Ansawdd Data (Erthygl 16)**<br>• **Hawl i Dilead (Erthygl 17)**<br>• **Hawl i Gyfyngu ar Brosesau (Erthygl 18)**<br>• **Hawl i Symud Data (Erthygl 20)**<br>• **Hawl i Wrthwynebu (Erthygl 21)**<br>• **Hawliau'n Gysylltiedig â Gwneud Penderfyniadau'n Awtomataidd yn Cynnwys Proffilio (Erthygl 22)** | |
| **15.2.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| | | |
|---|---|---|
| **16. Polisi Rheoli Cofnodion *(Records Management Policy)*- Adran 46 Code of Practice (FOI Act 2000)** | | |
| **16.1.** | **Mae gan yr ysgol Bolisi Rheoli Cofnodion ar waith- oes/nac oes** | |
| **16.2.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

| | | |
|---|---|---|
| **17. Cydsyniad- Ffurflenni Caniatad a Casglu Data- Deddf Diogelu Data 2018 ac Erthygl 4 a 7 o GDPR** | | |
| **17.1.** | **Mae gan yr ysgol ffurflenni caniatad ar gyfer prosesu data personol sy'n rhoi** | |

| | | |
|---|---|---|
| | dewis i rieni a disgyblion i *'opt in'* (e.e. lluniau, tripiau)- oes/nac oes | |
| 17.2. | Mae gan yr ysgol systemau i gofnodi a rheoli cydsyniad parhaus ac amserlen penodol i wneud hyn- oes/nac oes | |
| 17.3. | Mae gan yr ysgol fodd o reoli a gweithredu ac rhai sydd ddim yn rhoi cydsyniad ar elfennau gwahanol- oes/nac oes | |
| 17.4. | Unrhyw weithredoedd i'w cymryd | |

| 18. Rhannu Gwybodaeth yn Ddiogel | | |
|---|---|---|
| 18.1. | Mae'r ysgol yn defnyddio cyfrif e-bost diogel er mwyn gyrru data personol electronig- ydi/nac ydi | |
| 18.2. | Unrhyw weithredoedd i'w cymryd | |

| 19. Cofrestr Cyfnodau Cadw Cofnodion *(Records Retention Schedule)*- Adran 46 Code of Practice (FOI Act 2000) | | |
|---|---|---|
| 19.1. | Mae'r ysgol yn ymwybodol ac yn cydymffurfio â'r Gofrestr Cyfnodau Cadw Cofnodion- ydi/nac ydi | |
| 19.2. | Unrhyw weithredoedd i'w cymryd | |

| 20. Prosesau a Trefniadau Dileu a chael Gwared o Data Personol | | |
|---|---|---|
| 20.1. | Mae gan yr ysgol broses o gael gwared yn ddiogel â data personol nad sydd ei angen mwyach- oes/nac oes | |
| 20.2. | Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r egwyddor i beidio cadw data personol dim hirach na sydd angen ond bod angen cadw rhai dogfennau am gyfnodau penodol yn unol â'r Gofrestr Cyfnodau Cadw Cofnodion- ydi/nac ydi | |
| 20.3. | Mae gan yr ysgol ddulliau addas ar gyfer cael gwared o ddogfennau papur (e.e. bin gwastraff cyfrinachol, peiriant rhwygo)- oes/nac oes | |
| 20.4. | Unrhyw weithredoedd i'w cymryd | |

| 21. Storio Data Personol- Adran 46 Code of Practice (FOI Act 2000) | | |
|---|---|---|
| 21.1. | Mae'r ysgol yn gallu rhestru lle mae data personol yn cael ei storio (gan gynnwys cofnodion papur ac electronig) ac beth ydi'r prosesau diogelwch sydd ar waith- ydi/nac ydi | |
| 21.2. | Mae gan yr ysgol broses ar waith o gloi cofnodion papur i ffwrdd a bod | |

| | | |
|---|---|---|
| | **dim ond swyddogion priodol yn gallu cael mynediad atyn nhw- oes/nac oes** | |
| **21.3.** | **Mae gan yr ysgol broses ar waith i sicrhau bod cofnodion electronig yn cael eu storio mewn safle saff a bod yna broses ar waith mai ond staff priodol sy'n gallu cael mynediad atyn nhw- oes/nac oes** | |
| **21.4.** | **Mae gan yr ysgol broses ar waith gyda defnyddio dyfeisiadau fel cof bach- oes/nac oes** | |
| **21.5.** | **Mae'r ysgol yn ymwybodol i beidio defnyddio cyfrif e-bost fel ffordd o storio gwybodaeth a bod angen dileu/ffeilio e-byst yn briodol- ydi/nac ydi** | |
| **21.6.** | **Mae'r ysgol yn ymwybodol i beidio rhoi data personol i fyny ar hysbysfwrdd oni bai bod yna sail gyfreithiol o wneud hyn (e.e. hysbysu alergedd bwyd neu gyflwr meddygol)- ydi/nac ydi** | |
| **21.7.** | **Mae'r ysgol gyda proses ar waith i sicrhau bod staff ddim yn tynnu lluniau ac yn recordio disgyblion ar ddyfeisiau personol- ydi/nac ydi** | |
| **21.8.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |

**22. Hyfforddiant Diogelu Data- Erthygl 5(2) o GDPR**

| | | |
|---|---|---|
| **22.1.** | **Pwy o'r ysgol sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth diogelu data** | |
| **22.2.** | **Pwy o'r ysgol sydd angen mynychu hyfforddiant/hyfforddiant pellach?** | |
| **22.3.** | **Oes gan yr ysgol broses o gofnodi pwy sydd wedi cwblhau hyfforddiant- oes/nac oes** | |
| **22.4.** | **Unrhyw weithredoedd i'w cymryd** | |



| **23. Prif Risgiau wedi eu Hadnabod** |
|---|
| |

| **24. Unrhyw Sylwadau Ychwanegol ac Awgrymiadau a Cheisiadau gan yr Ysgol** |
|---|
| |

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Llofnod Pennaeth yr Ysgol** | |
| **Dyddiad** | |
| **Llofnod Swyddog Diogelu Data Ysgolion** | |
| **Dyddiad** | |

ATODIAD C

**Fframwaith Adolygu Polisïau, Canllawiau a Dogfennau Allweddol Diogelu Data Ysgolion Môn**

| Rhif | Polisi, Canllaw, Dogfen Allweddol | Diweddariad ar Gynnydd | Amserlen Adolygu |
|---|---|---|---|
| 1 | Polisi Diogelu Data Ysgolion (adolygu'r polisi cyfredol) | Polisi wedi ei drafod â'r Uwch Dîm Dysgu ar 20.07.20. Angen cadarnhau elfennau gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Anelu i'r polisi fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** Dyddiad mabwysiadu gwreiddiol wedi ei wthio yn ôl oherwydd COVID-19. | Bob blwyddyn- **adolygu Gorffennaf 2021** ar gyfer tymor Hydref 2021. |
| 2 | Pecyn Tor-rheolau Data Ysgolion:<br><br>1. Polisi Tor-rheolau Data Ysgolion<br>2. Canllaw Tor-rheolau Data Ysgolion<br>3. Ffurflen Archwiliad Tor-rheolau Data Ysgolion<br>4. Adroddiad Tor-rheolau Data Ysgolion i'r Corff Llywodraethu Ysgol<br>5. Log Tor-rheolau Data Ysgolion | Pecyn wedi ei drafod â'r Uwch Dîm Dysgu ar 20.07.20. Angen cadarnhau elfennau gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Anelu i'r pecyn fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** Dyddiad mabwysiadu gwreiddiol wedi ei wthio yn ôl oherwydd COVID-19. | Bob 2 flynedd- **adolygu Gorffennaf 2022** ar gyfer tymor Hydref 2022. |
| 3 | Gweithdrefn Rhannu gwybodaeth gydag Awdurdodau Heddlu'r Deyrnas Unedig Gwynedd a Môn | Gweithdrefn wedi ei gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Dysgu ar 20.07.20. Gweithdrefn yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** Dyddiad mabwysiadu gwreiddiol wedi ei wthio yn ôl oherwydd COVID-19. | Bob 3 blynedd- **adolygu Gorffennaf 2023** ar gyfer tymor Hydref 2023. |
| 4 | Cyfnodau Cadw Ysgolion (fersiwn cyfredol 2018) | Yr Uwch Dîm Dysgu wedi cadarnhau ar 20.07.20 i gadw â'r fersiwn cyfredol a'i adolygu fel rhan o waith | Fel bo'r angen (dibynnu ar ganllawiau cenedlaethol) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhanbarthol. Fersiwn hon wedi ei hail-rannu â'r ysgolion i gyd ar 23.07.20. | |
| 5 | Hysbysiad Preifatrwydd Ysgolion:<br><br>1. Ysgolion Cynradd<br>2. Ysgolion Uwchradd<br>3. Gweithlu Ysgolion<br>**4. Fersiwn Plant a Phobl Ifanc** | Pecyn wedi ei drafod â'r Uwch Dîm Dysgu ar 20.07.20. Angen creu fersiwn plant a phobl ifanc ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Angen cadarnhau elfennau gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Anelu i'r pecyn fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** Dyddiad mabwysiadu gwreiddiol wedi ei wthio yn ôl oherwydd COVID-19. | Fel bo'r angen (pan mae unrhyw newid) |
| 6 | Pecyn Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion:<br><br>1. Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion<br>2. Ffurflen Archwiliad Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion | Pecyn wedi ei drafod â'r Uwch Dîm Dysgu ar 20.07.20. Angen cadarnhau elfennau gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Anelu i'r pecyn fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** | Bob 2 flynedd- **adolygu Gorffennaf 2022** ar gyfer tymor Hydref 2022. |
| 7 | Pecyn Delio gyda Chais gan Wrthrych Data Ysgolion:<br><br>1. Polisi Delio gyda Chais gan Wrthrych Data Ysgolion<br>2. Ffurflen Gais Delio gyda Chais gan Wrthrych Data Ysgolion<br>3. Templed Llythyr Cydnabod Delio gyda Chais gan Wrthrych Data Ysgolion<br>4. Templed Llythyr Estyniad Delio gyda Chais gan Wrthrych Data Ysgolion | Pecyn wedi ei drafod â'r Uwch Dîm Dysgu ar 20.07.20. Angen cadarnhau elfennau gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Anelu i'r pecyn fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** Dyddiad mabwysiadu gwreiddiol wedi ei wthio yn ôl oherwydd COVID-19. | Bob 3 blynedd- **adolygu Gorffennaf 2023** ar gyfer tymor Hydref 2023. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 5. Templed Llythyr Ymateb Delio gyda Chais gan Wrthrych Data Ysgolion | | |
| 8 | Polisi E-bost Staff Ysgolion | Polisi wedi ei drafod â'r Uwch Dîm Dysgu ar 20.07.20. Angen cadarnhau elfennau gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Anelu i'r polisi fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** Dyddiad mabwysiadu gwreiddiol wedi ei wthio yn ôl oherwydd COVID-19. | Bob 2 flynedd- **adolygu Gorffennaf 2022** ar gyfer tymor Hydref 2022. |
| 9 | Pecyn Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion:<br><br>1. Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion<br>2. Rhestr Risg Diogelu Data Ysgolion<br>3. Matrics Risg Diogelu Data Ysgolion<br>4. Templed Asesiad Effaith Diogelu Data<br>5. Rhestr Wirio Sgrinio Asesiad Effaith Diogelu Data | Pecyn wedi ei drafod â'r Uwch Dîm Dysgu ar 20.07.20. Angen cadarnhau elfennau gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Anelu i'r pecyn fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** | Bob 3 blynedd- **adolygu Gorffennaf 2023** ar gyfer tymor Hydref 2023. |
| 10 | Pecyn System CCTV Ysgolion:<br><br>1. Polisi CCTV Ysgolion (adolygu'r polisi cyfredol)<br>2. Log System CCTV Ysgolion | Pecyn wedi ei drafod â'r Uwch Dîm Dysgu ar 20.07.20. Angen cadarnhau elfennau gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Anelu i'r pecyn fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** Dyddiad mabwysiadu gwreiddiol wedi ei wthio yn ôl oherwydd COVID-19. | Bob 3 blynedd- **adolygu Gorffennaf 2023** ar gyfer tymor Hydref 2023. |
| 11 | Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion | Polisi wedi ei drafod â'r Uwch Dîm Dysgu ar 20.07.20. Angen cadarnhau elfennau gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Anelu i'r polisi fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** | Bob 3 blynedd- **adolygu Gorffennaf 2023** ar gyfer tymor Hydref 2023. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12 | Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion | Polisi wedi ei drafod â'r Uwch Dîm Dysgu ar 20.07.20. Angen cadarnhau elfennau gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Anelu i'r polisi fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** Dyddiad mabwysiadu gwreiddiol wedi ei wthio yn ôl oherwydd COVID-19. | Bob 2 flynedd- **adolygu Gorffennaf 2022** ar gyfer tymor Hydref 2022. |
| 13 | Pecyn Cofnodion Gweithgareddau Prosesu Ysgolion (ROPA):<br><br>1. Canllaw Cofnodion Gweithgareddau Prosesu Ysgolion (ROPA)<br>2. Templed Cofnodion Gweithgareddau Prosesu Ysgolion (ROPA) | Yr Uwch Dîm Dysgu wedi cadarnhau ar 20.07.20 i gymeradwyo'r pecyn. Gwaith angen ei wneud gydag un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd ar gwblhau'r templed. I'w ddefnyddio fel templed i'w addasu fel bo'r angen gan yr ysgolion i gyd yn ystod **tymor Hydref 2020.** | Bob 3 blynedd- **adolygu Gorffennaf 2023** ar gyfer tymor Hydref 2023. |
| 14 | Templed Cofrestr o Asedau Gwybodaeth Ysgolion | Yr Uwch Dîm Dysgu wedi cadarnhau ar 20.07.20 i barhau i ddefnyddio'r fersiwn cyfredol fel templed. Gwaith wedi ei wneud gyda un ysgol cynradd ar gwblhau'r gofrestr yn barod. Angen gwneud hyn gyda un ysgol uwchradd hefyd. I'w ddefnyddio fel templed i'w addasu fel bo'r angen gan yr ysgolion i gyd yn ystod **tymor Hydref 2020.** | Bob 3 blynedd- **adolygu Gorffennaf 2023** ar gyfer tymor Hydref 2023. |
| 15 | Rhestr Termau, Diffiniadau a Deddfwriaeth Ddwyieithog Diogelu Data Ysgolion | Angen cwblhau'r ddogfen a'i rannu â'r ysgolion i gyd yn ystod **tymor Hydref 2020.** | Fel bo'r angen (pan mae yna unrhyw newid). |
| 16 | Pecyn Ffurflenni Caniatâd:<br><br>1. Ffurflen Caniatâd Rhieni | Angen cwblhau'r pecyn ac yna ei rannu â'r Uwch Dîm Dysgu, swyddogion perthnasol y Cyngor ac ysgolion, er mwyn ei gymeradwyo i | Bob 3 blynedd- **adolygu Gorffennaf 2023** ar gyfer tymor Hydref 2023. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2. Ffurflen Caniatâd Defnyddio Systemau Biometrig | fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** | |
| 17 | Polisi tynnu Lluniau i bwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion | Angen cwblhau'r polisi ac yna ei rannu â'r Uwch Dîm Dysgu, swyddogion perthnasol y Cyngor ac ysgolion, er mwyn ei gymeradwyo i fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** | Bob 3 blynedd- **adolygu Gorffennaf 2023** ar gyfer tymor Hydref 2023. |
| 18 | Canllaw Diogelu Data Corff Llywodraethu Ysgolion | Angen cwblhau'r canllaw ac yna ei rannu â'r Uwch Dîm Dysgu, swyddogion perthnasol y Cyngor ac ysgolion, er mwyn ei gymeradwyo i fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Hydref 2020.** | Bob 2 flynedd- **adolygu Gorffennaf 2022** ar gyfer tymor Hydref 2022. |
| 19 | Polisi Dosbarthiadau Data Personol Ysgolion | Angen cwblhau'r polisi ac yna ei rannu â'r Uwch Dîm Dysgu, swyddogion perthnasol y Cyngor ac ysgolion, er mwyn ei gymeradwyo i fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Gwanwyn 2021.** | Bob 2 flynedd- **adolygu Tachwedd 2022** ar gyfer tymor Gwanwyn 2023. |
| 20 | Polisi Risg Gwybodaeth Ysgolion | Angen cwblhau'r polisi ac yna ei rannu â'r Uwch Dîm Dysgu, swyddogion perthnasol y Cyngor ac ysgolion, er mwyn ei gymeradwyo i fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Gwanwyn 2021**. | Bob 3 blynedd- **adolygu Tachwedd 2023** ar gyfer tymor Gwanwyn 2024. |
| 21 | Polisi Prosesu Data Personol Ysgolion | Angen cwblhau'r polisi ac yna ei rannu â'r Uwch Dîm Dysgu, swyddogion perthnasol y Cyngor ac ysgolion, er mwyn ei gymeradwyo i fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Gwanwyn 2021**. | Bob 3 blynedd- **adolygu Tachwedd 2023** ar gyfer tymor Gwanwyn 2024. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 22 | Polisi Prosesu Data Personol Categori Arbennig Ysgolion | Angen cwblhau'r polisi ac yna ei rannu â'r Uwch Dîm Dysgu, swyddogion perthnasol y Cyngor ac ysgolion, er mwyn ei gymeradwyo i fod yn barod i'w fabwysiadu gan yr ysgolion **tymor Gwanwyn 2021.** | Bob 3 blynedd- **adolygu Tachwedd 2023** ar gyfer tymor Gwanwyn 2024. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **1 RHAGFYR 2020** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN 2020/21 AR REOLI'R TRYSORLYS** |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) & SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>E-BOST: | **JEMMA ROBINSON**<br>JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

## 1. Cefndir

### 1.1 Strategaeth Gyfalaf

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) godau diwygiedig ar gyfer Darbodusrwydd a Rheoli'r Trysorlys. O 2020/21, bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol baratoi Strategaeth Gyfalaf y bwriedir iddi ddarparu'r canlynol: -

- trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau;
- trosolwg o sut y rheolir y risg gysylltiedig; a'r
- goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Aethpwyd ag adroddiad a oedd yn amlinellu ein Strategaeth Gyfalaf i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2020, a bydd Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn cyn 31 Mawrth 2021.

### 1.2 Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Cyngor yn gweithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n fras y bydd arian a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â'i wariant arian parod. Mae rhan o'r gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn sicrhau bod y llif arian hwn wedi'i gynllunio'n ddigonol, gydag arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon risg isel, gan ddarparu hylifedd digonol yn y lle cyntaf cyn ystyried sicrhau'r elw uchaf posib o'r buddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o faint y bydd angen i'r Cyngor gael benthyg, yn y bôn, y cynllunio llif ariannol tymor hwy i sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gall y gwaith hwn o reoli arian parod tymor hwy gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hwy ac, ar brydiau, gellir ailstrwythuro unrhyw ddyled i fodloni amcanion cost neu risg y Cyngor.

Yn unol â hynny, diffinnir rheoli trysorlys fel:-

*"Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny. "*

## 2. Rhagarweiniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (diwygiwyd 2017). Mae prif ofynion y Côd fel a ganlyn:-

**(i)** Creu a chynnal Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys, sy'n nodi polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor.

(**ii)** Creu a chynnal Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n nodi'r modd y bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny.

**(iii)** Bod y Cyngor llawn yn derbyn Datganiad Blynyddol Strategaeth Rheoli Trysorlys, sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer y flwyddyn i ddod, Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn (yr adroddiad hwn) ac Adroddiad Blynyddol, yn ymdrin â gweithgareddau yn ystod y flwyddyn flaenorol**.**

**(iv)** Y Cyngor yn dirprwyo cyfrifoldebau dros weithredu a monitro polisïau ac arferion rheoli trysorlys ac ar gyfer gweithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli trysorlys**.**

**(v)** Y Cyngor yn dirprwyo rôl craffu ar y strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys i gorff penodol a enwir. Ar gyfer y Cyngor hwn, y corff dirprwyedig hwnnw yw'r Pwyllgor Archwilio.

Paratowyd yr adroddiad canol blwyddyn hwn yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, ac mae'n cwmpasu'r canlynol:-

• Diweddariad economaidd ar gyfer hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2020/21;
• Adolygiad o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol;
• Gwariant cyfalaf y Cyngor fel y'i nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, a dangosyddion darbodus;
• Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2020/21;
• Adolygiad o strategaeth fenthyca'r Cyngor ar gyfer 2020/21;
• Adolygiad o unrhyw aildrefnu dyledion a wnaed yn ystod 2020/21;
• Adolygiad o gydymffurfiaeth â'r Terfynau Trysorlys a Darbodus ar gyfer 2020/21.

## 3. Diweddariad Economaidd

**3.1** Cafwyd diweddariad economaidd gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor ac mae i'w weld yn Atodiad 1. Maent hefyd wedi darparu'r rhagolygon isod ar gyfer cyfraddau llog:-

| | Rhag 2020 | Maw 2021 | Meh 2021 | Medi 2021 | Rhag 2021 | Maw 2022 | Meh 2022 | Medi 2022 | Rhag 2022 | Maw 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Banc (%) | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% |
| Cyfradd 5 mlynedd BBGC (%) | 1.80% | 1.80% | 1.80% | 1.80% | 1.80% | 1.90% | 1.90% | 1.90% | 1.90% | 1.90% |
| Cyfradd 10 mlynedd BBGC (%) | 2.10% | 2.10% | 2.10% | 2.10% | 2.20% | 2.20% | 2.20% | 2.30% | 2.30% | 2.30% |
| Cyfradd 25 mlynedd BBGC (%) | 2.50% | 2.50% | 2.60% | 2.60% | 2.60% | 2.60% | 2.70% | 2.70% | 2.70% | 2.70% |
| Cyfradd 50 mlynedd BBGC (%) | 2.30% | 2.30% | 2.40% | 2.40% | 2.40% | 2.40% | 2.50% | 2.50% | 2.50% | 2.50% |

**3.2** Yn ddiweddar, darparodd ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor sylwebaeth i gyd-fynd â'r rhagolygon cyfraddau llog uchod. Gellir gweld y sylwebaeth hon yn Atodiad 2.

## 4. Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a diweddariad ar y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

**4.1** Cymeradwywyd y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2020/21 gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020. Nid oes unrhyw newidiadau polisi iddo; mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn diweddaru'r sefyllfa yng ngoleuni'r sefyllfa economaidd sydd ohoni a'r newidiadau cyllidebol a gymeradwywyd eisoes.

## 5. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

**5.1** Yn unol â'r Côd, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau diogelwch cyfalaf a hylifedd, a sicrhau lefel briodol o enillion sy'n gyson ag archwaeth risg y Cyngor. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ystyrir ei bod yn briodol cadw'r buddsoddiadau i rai tymor byr er mwyn cwrdd ag anghenion llif arian, ond hefyd i chwilio am y gwerth sydd ar gael mewn cyfnodau hyd at 12 mis gyda sefydliadau ariannol â statws credyd uchel. Fel y dangosir gan y rhagolygon ynghylch cyfraddau llog yn adran 3, mae bellach yn amhosib cael y cyfraddau llog a welwyd yn gyffredin mewn degawdau blaenorol oherwydd prin bod yr holl gyfraddau buddsoddi uwchlaw sero nawr bod y Gyfradd Banc ar 0.10%. O ystyried yr amgylchedd risg hwn a'r ffaith bod codiadau yn y Gyfradd Banc yn annhebygol o ddigwydd cyn diwedd 31 Mawrth 2023, disgwylir i enillion o fuddsoddiadau barhau i fod yn isel.

**5.2** Er bod Banc Lloegr wedi dweud ei fod yn annhebygol o gyflwyno Cyfradd Llog negyddol, o leiaf yn ystod y 6 -12 mis nesaf, mae rhai cyfrifon adneuo eisoes yn cynnig cyfraddau negyddol am gyfnodau byrrach. Fel rhan o'r ymateb i'r pandemig a'r cyfnod clo, mae'r Banc a'r Llywodraeth wedi darparu digonedd o fynediad i gredyd ar gyfer marchnadoedd ariannol a busnesau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy fanciau masnachol. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi darparu grantiau mawr i awdurdodau lleol i'w helpu i ddelio ag argyfwng Covid; yn achos rhai awdurdodau lleol mae hyn wedi achosi cynnydd mawr a sydyn yn eu balansau buddsoddi ac maent yn chwilio am gartref buddsoddi ar eu cyfer, ond dim ond am dymor byr iawn oedd rhai ohonynt nes y bu modd pasio'r symiau hynny ymlaen.

**5.3** Mae cyfraddau cymryd benthyg a rhoi benthyg rhwng awdurdodau lleol hefyd wedi gostwng oherwydd y cynnydd yn y lefelau arian parod yn ceisio cartref tymor byr ar adeg pan mae'n debyg bod llawer o awdurdodau lleol yn cael anawsterau o ran rhagweld yn gywir pryd y byddant yn talu'r arian a dderbyniwyd neu pryd y ceir rhagor o arian mawr gan y Llywodraeth.

**5.4** Roedd gan y Cyngor £42.224m o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2020 (£20.208m ar 31 Mawrth 2020) a'r elw o'r portffolio buddsoddi am chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 0.07%. Mae rhestr lawn o'r buddsoddiadau ar 30 Medi 2020 i'w gweld yn Atodiad 3. Mae crynodeb o'r buddsoddiadau a'r cyfraddau ar gael yn Atodiad 4.

**5.5** Oherwydd y grantiau mawr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddelio ag argyfwng Covid a'r ffaith bod cyfrifon galw ar gael i'r Cyngor, mae hyn wedi golygu bod y balansau yn y cyfrifon hynny'n uwch na'r terfynau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sydd wedi ei chynnwys yn y DSRhT am 2020/21. Wrth gynhyrchu'r DSRhT 2020/21, nid oedd modd rhagweld y cyfnod digynsail hwn. Yng ngoleuni hynny, bydd terfynau gwrthbartïon yn cael eu hasesu a'u hadolygu wrth gynhyrchu'r DSRhT ar gyfer 2021/22.

**5.6** Yr enillion o fuddsoddiadau y mae'r Cyngor wedi cynllunio ar eu cyfer am 2020/21 yw £0.053m ac mae'r perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn unol â'r gyllideb, gyda £0.027m wedi'i dderbyn hyd ddiwedd Chwarter 2. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y byddwn oddeutu £0.011m yn brin o'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Er bod ein balansau arian parod wedi bod yn uwch na'r arfer, mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan y cyfraddau llog is na'r disgwyl

**5.7** Mae'r meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a gymeradwywyd yn y DSRhT yn cwrdd â gofyniad y swyddogaeth rheoli trysorlys.

**5.8** Gellir gweld y gwledydd a gymeradwyir ar gyfer buddsoddiadau yn Atodiad 5.

**5.9** Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o fuddsoddiadau a wnaed i Awdurdodau Lleol eraill yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon. O ystyried mai diogelwch yr arian yw dangosydd allweddol y Cyngor hwn, ystyrir mai buddsoddiadau gydag Awdurdodau Lleol eraill yw'r ffordd fwyaf diogel o fuddsoddi arian, ac mae hyn yn rhoi enillion uwch na'r mwyafrif o gyfrifon galw gyda banciau.


| Awdurdod Lleol | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Gorffen | Cyfradd Llog % | Swm |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Blackpool | 30/07/2020 | 23/10/2020 | 0.15 | 5,000,000 |
| CyngorThurrock | 11/09/2020 | 11/01/2021 | 0.15 | 5,000,000 |
| Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Dudley | 25/09/2020 | 23/12/2020 | 0.15 | 3,500,000 |

## 6. Benthyca

**6.1** Y gofyniad cyllid cyfalaf a ragwelir (GCC) ar gyfer 2020/21 yw £140.6m. Mae'r GCC yn dynodi angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf. Os yw'r GCC yn bositif, gall y Cyngor fenthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) neu'r farchnad (benthyca allanol) neu o falansau mewnol ar sail dros dro (benthyca mewnol). Yn gyffredinol, mae'r cydbwysedd rhwng benthyca allanol a mewnol yn cael ei yrru gan amodau'r farchnad. Mae'r Cyngor wedi rhagweld y bydd wedi cael benthyg £128.9m ar ddiwedd y flwyddyn a bydd wedi defnyddio £11.7m o gronfeydd llif arian yn lle benthyca. Mae hwn yn ddull darbodus a chost-effeithiol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ond bydd angen ei fonitro'n barhaus os bydd yr elw o giltiau yn well na'r disgwyl.

**6.2** Ni chymerwyd benthyg unrhyw arian yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon, ond rhagwelir y gwneir hynny yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Bydd angen benthyca i gyllido rhan o raglen gyfalaf 2020/21 a gwneir hynny trwy fenthyca mewnol (o falansau arian parod) a benthyca allanol. Mae'r benthyca allanol mewn perthynas â chyllido cost cyfalaf cerbydau newydd yn unol ag amodau'r contract gwastraff a ddyfarnwyd i Biffa. Rhagwelir y bydd hyn yn £4.449m ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar 30 Tachwedd 2020. Yn ogystal, mae effaith coronafeirws ar amcanion y rhaglen gyfalaf yn cael ei hasesu. Felly, bydd ein strategaeth fenthyca yn cael ei hadolygu a'i diwygio er mwyn sicrhau'r gwerth gorau ac amlygiad i risg yn y tymor hir.

Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos y newid yng nghyfraddau sicrwydd y BBGC ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn hyd yn hyn. Roedd y cyfraddau BBGC yn amrywio o fewn ystod gymharol gul rhwng Ebrill a Gorffennaf ond cododd pen hirach y gromlin yn ystod mis Awst. Daeth y cynnydd hwn mewn dau gyfnod roedd y cyntaf yn ail wythnos y mis yn sgil gobeithion am ysgogiad newydd o'r Unol Daleithiau lle gwelwyd buddsoddwyr yn symud arian allan o fondiau'r llywodraeth ac i mewn i ecwiti. Daeth yr ail newid ar ben hirach y gromlin tuag at ddiwedd y mis wrth i fuddsoddwyr ymateb i'r cyhoeddiad am y newid i darged chwyddiant y Ffed. Er gwaethaf symudiadau ymhellach allan yn y gromlin elw, ni fu unrhyw symud yn y pen byr ar y sail na fu newid sylfaenol i ragolygon ar gyfer cyfraddau llog. Roedd cyfradd darged 50 mlynedd BBGC ar gyfer benthyca tymor hir newydd yn ddigyfnewid ar 2.30%.



| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| Low | 1.70% | 1.67% | 1.91% | 2.40% | 2.13% |
| Date | 18/09/2020 | 30/07/2020 | 31/07/2020 | 18/06/2020 | 24/04/2020 |
| High | 1.94% | 1.99% | 2.19% | 2.80% | 2.65% |
| Date | 08/04/2020 | 08/04/2020 | 08/04/2020 | 28/08/2020 | 28/08/2020 |
| Average | 1.80% | 1.80% | 2.04% | 2.54% | 2.33% |

**6.3** Cyfyngedig iawn fu’r cyfleon a gafwyd i aildrefnu dyledion yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ac yn dilyn y codiadau amrywiol yn yr elw a ychwanegwyd at enillion giltiau sydd wedi effeithio ar gyfraddau benthyca newydd BBGC ers mis Hydref 2010. Felly, nid oes unrhyw ddyledion wedi eu haildrefnu hyd yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

## 7 Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor (Dangosyddion Darbodus)

**7.1** Mae’r rhan hon o’r adroddiad wedi ei strwythuro er mwyn rhoi diweddariad ar:-

- Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor;
- Sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyllido;
- Effaith y newidiadau yn y cynlluniau gwariant cyfalaf ar y dangosyddion darbodus a'r angen sylfaenol i fenthyca; a
- Cydymffurfio â'r cyfyngiadau sydd ar waith ar gyfer gweithgaredd benthyca.

### 7.2 Dangosydd Darbodus ar gyfer Gwariant Cyfalaf

Mae'r tabl hwn yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf**:-**

| Gwariant Cyfalaf | Amcangyfrif Gwreiddiol 2020/21 £’000 | Y Sefyllfa ar 30 Medi 2020 £’000 | Amcangyfrif cyfredol 2020/21 £’000 |
|---|---|---|---|
| Cronfa’r Cyngor | 30,434 | 7,791 | 20,967 |
| CRT | 19,032 | 3,680 | 12,788 |
| **Cyfanswm** | **49,466** | **11,471** | **33,755** |

**7.2.1** Mae'r gwariant a ragwelir yn dangos bod mwyafrif y prosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb ond y prif brosiect y rhagwelir y bydd yn tanwario yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a rhagwelir tanwariant sylweddol yn y CRT hefyd. Adlewyrchir hyn yn y tabl uchod. Mae dadansoddiad llawn o'r gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer 2020/21 i’w weld yn Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf Ch2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 30 Tachwedd 2020.

### 7.3 Newidiadau i Gyllido’r Rhaglen Gyfalaf

**7.3.1** Mae rhai newidiadau i sut y cyllidir y rhaglen gyfalaf fel y gwelir yn y tabl isod. Mae'r prif reswm dros y newid fel y nodwyd ym mharagraff 7.2.1, gan y bydd tanwariant sylweddol yn 2020/21 mewn cynlluniau cyfalaf (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r CRT). Fodd bynnag, bydd y cynlluniau hyn, a'r cyllid ar eu cyfer, yn llithro i 2021/22 ac ni ragwelir, ar hyn o bryd, y bydd unrhyw gyllid yn cael ei golli oherwydd yr oedi.

**7.3.2** Mae'r tabl isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategaeth y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan dynnu sylw at ddull cyllido gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwyliedig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthyca'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei leihau'n rhannol gan daliadau refeniw am ad-dalu dyled (y Ddarpariaeth Refeniw Isaf). Efallai y bydd dyledion sy'n aeddfedu a gofynion trysorlys eraill yn ychwanegu at yr angen benthyca uniongyrchol hwn hefyd.

| Cyllido Cyfalaf | Amcangyfrif Gwreiddiol 2020/21 £’000 | Amcangyfrif Diwygiedig 2020/21 £’000 |
|---|---|---|
| Grantiau Cyfalaf | 20,769 | 15,070 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 793 | 782 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 619 | 487 |
| Cyfraniad Refeniw | 16,133 | 10,152 |
| Benthyca â chefnogaeth | 7,955 | 5,727 |
| Benthyca digefnogaeth | 1,796 | 136 |
| Benthyciad | 1,401 | 1,401 |
| **Cyfanswm** | **49,466** | **33,755** |

**7.4 Newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol**

**7.4.1** Mae tablau 7.4.2 a 7.4.3 isod yn dangos y GCC, sef yr angen allanol sylfaenol i fenthyca at bwrpas cyfalaf. Mae hefyd yn dangos y sefyllfa ddyled a ddisgwylir dros y cyfnod. Gelwir hyn yn Derfyn Gweithredol, ac fe’i gosodir yn flynyddol gan y Cyngor fel rhan o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys**.**

**7.4.2 Dangosydd Darbodus - y Terfyn Gweithredol ar gyfer dyled allanol**

| | Terfyn Gweithredol 2020/21 yn unol â DSRhT 2019/20 £’000 | Sefyllfa Fenthyca Agoriadol 2020/21 £’000 | Swm o fewn y Ffin £’000 | Amcangyfrif o Sefyllfa Fenthyca 2020/21 £’000 | Swm o fewn y Ffin £’000 |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Dangosydd Darbodus – Dyled allanol / Y Terfyn Gweithredol*** | | | | | |
| Benthyca | 189,000 | 139,232 | 49,768 | 128,924 | 60,076 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 3,000 | 0 | 3,000 | 0 | 3,000 |
| **Cyfanswm dyledion ar 31 March** | **192,000** | **139,232** | **52,768** | **128,924** | **63,076** |

**7.4.3 Dangosydd Darbodus - Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)**

**7.4.3.1** Ar hyn o bryd, rydym ychydig yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelwyd yn wreiddiol oherwydd y tanwariant a ragwelir mewn benthyca, yn bennaf oherwydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

| | Amcangyfrif gwreiddiol 2020/21 £’000 | Amcangyfrif diwygiedig 2020/21 £’000 |
|---|---|---|
| ***Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf*** | | |
| GCC – Cronfa’r Cyngor | 108,536 | 101,469 |
| GCC – CRT | 39,449 | 39,198 |
| Cyfanswm GCC | 147,985 | 140,667 |
| **Symudiad Net yn y GCC** | **5,951**[1] | **3,763**[2] |

[1] Symudiad rhwng amcangyfrif 2019/20 ac amcangyfrif 2020/21 yn y DSRhT 2020/21
[2] Symudiad rhwng ffigyrau gwirioneddol 2019/20 (yn unol â Datganiad Cyfrifon 2019/20) ac amcangyfrif diwygiedig 2020/21

| **Rhagolwg GCC gwreiddiol** | **147,985** |
|---|---|
| Gostyngiad yn y Ddarpariaeth Refeniw Isaf rhwng rhagolygon DSRhT 2020/21 a’r rhagolygon diwygiedig ar gyfer Cyfalaf Ch 2 2020/21 | 154 |
| Tanwariant mewn Benthyca Digefnogaeth ar gyfer y CRT yn 2020/21 | -250 |
| Tanwariant ar fenthyciad (gwahaniaeth rhwng rhagolygon DSRhT 2020/21 a'r rhagolygon diwygiedig ar gyfer Cyfalaf Ch2) | -3 |
| Tanwariant mewn Benthyca Digefnogaeth yn 2019/20 a 2020/21 oherwydd yr oedi gyda Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif | -4,105 |
